UK Commission on Covid Commemoration

# COMISIWN Y DU AR GOFFÁU COVID:

## ADRODDIAD TERFYNOL

Mawrth 2023

# CONTENTS


**Rhagair** 4

**Crynodeb Gweithredol** 6

**Crynodeb o'r Argymhellion** 9

**1. Cyflwyniad** 11

1.1. Pwrpas y Comisiwn 11

1.2. Y Comisiynwyr 11

1.3. Cefndir 11

1.4. Yr agwedd at ein gwaith 13

**2. Canfyddiadau ac Argymhellion** 15

2.1. Cyd-destun 15

2.2. Themâu allweddol 17

2.3. Nodi'r cyfnod hwn yn ein hanes 18

2.4. Coffáu a Chofebion 24

2.5. Cydnabyddiaeth 28

**Atodiad** 32

Atodiad A - Cylch Gorchwyl 32

Atodiad B – Aelodaeth y Comisiwn 34

Atodiad C – Canfyddiadau Ymgynghori â'r Cyhoedd 37

Atodiad D – Ymgysylltu â Rhanddeiliaid 66

# Rhagair



Mae wedi bod yn fraint fawr cael cadeirio Comisiwn y DU ar Goffáu Covid. Cawsom dasg anodd o gofio'r bywydau a gollwyd yn sgil pandemig COVID-19 a hefyd o gydnabod ymdrechion ac aberth gweithwyr rheng flaen, y gwirfoddoli a'r ysbryd cymunedol a welsom a champ anhygoel gwyddoniaeth y DU wrth ddatblygu'r brechlynnau.

Hoffwn ddiolch i'm cyd-Gomisiynwyr am eu hymroddiad a'u sensitifrwydd wrth ymgymryd â gwaith y Comisiwn hwn a'r arbenigedd y daethant ag ef i'n gwaith. A hoffwn ddiolch hefyd i'r Ysgrifenyddiaeth fach ac ymroddedig yn Swyddfa'r Cabinet sydd wedi ein cynorthwyo mewn modd mor arbenigol a meddylgar.

Fel y dywedwn yn yr adroddiad hwn, i lawer mae pandemig COVID-19 eisoes yn cilio, rhywbeth i beidio â myfyrio arno. Ond i eraill maent yn dal i ddod i delerau â'r effaith ddwys y mae COVID-19 wedi'i chael ar eu teuluoedd, eu hiechyd a'u bywydau. Mae llawer o'r effaith hon yn parhau'n boenus iawn. Gwelsom yn rhai o'n cyfarfodydd ymgysylltu fod pobl, yn enwedig y rhai sydd wedi cael profedigaeth, yn aml yn siarad am y tro cyntaf yn gyhoeddus am eu profiadau a'u colled. Ni fydd modd anghofio byth y gwahardd ar gyswllt corfforol a chymdeithasol ar adeg pan fyddai teulu a ffrindiau fel arfer yn closio i gefnogi'i gilydd. Mae'r cyfranogwr yn ein cyfarfod yng Nghaerwysg a ddywedodd wrthyf fod "Pawb wedi colli rhywbeth" yn llygad ei le.

Ni fydd y rhai ohonom a ymwelodd â'r Wal Goffa Genedlaethol Covid yn Llundain yn anghofio ymroddiad a phenderfyniad y gwirfoddolwyr aruthrol yno na'r teimladau maent wedi'u buddsoddi yn y wal na'r miloedd o galonnau coch sydd arni.

Rydym mor ddiolchgar i bawb a fynychodd ein digwyddiadau, ac a gwblhaodd ein harolygon ac a anfonodd eu barn i mewn. Rydyn ni'n gobeithio ein bod ni wedi gwneud cyfiawnder â'r meddyliau roedden nhw'n eu rhannu â ni.

Pan oeddwn i'n AS ac yn cwrdd ag etholwyr oedd wedi bod drwy ddigwyddiadau gofidus iawn, fe wnaethon nhw ofyn i mi am help nid o reidrwydd i gael iawn ond am fod eisiau atal unrhyw un arall rhag mynd trwy brofiad tebyg arnynt. Gwelais yr un peth yn y sgyrsiau a gefais yn rhan o'r Comisiwn hwn. Er bod eisiau'r lle a'r amser ar bobl i

fyfyrio ar eu colled unigol ac ar y cyd, roedden nhw hefyd am i ni edrych ymlaen yn ein hargymhellion a cheisio meithrin gwydnwch wrth baratoi ar gyfer pandemig yn y dyfodol neu ddigwyddiad peryglus arall.

Fel y dywedodd y Frenhines Elisabeth II wrth y genedl ym mis Ebrill 2020 “Byddwn ni gyda’n ffrindiau eto, byddwn ni gyda’n teuluoedd eto; fe fyddwn ni’n cwrdd eto.”  Roedd hi’n gywir, wrth gwrs.  Ond mae’r cyfnod pan nad oedden ni’n gallu gwneud y pethau hynny, yr oedden ni wedi eu cymryd yn ganiataol hyd hynny, wedi gadael eu hôl. Fel yr wyf yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn a’n hargymhellion yn dangos, mae’n iawn, fel gwlad, i ni gymryd yr amser i gofio am bandemig COVID-19, i fynd i’r afael â’r hyn ddigwyddodd ac yna i ganolbwyntio ar barodrwydd ar gyfer y dyfodol.




**Y Gwir Anrhydeddus Farwnes Morgan o Cotes**

# Crynodeb Gweithredol

Sefydlwyd Comisiwn y DU ar Goffáu Covid ar 21 Gorffennaf 2022. Mae'n annibynnol ar y Llywodraeth ac yn hollol ar wahân i Ymchwiliad COVID-19 y DU. Gofynnwyd i ni sicrhau consensws eang ar draws y Deyrnas Unedig gyfan ar sut y gallem goffáu'r bywydau a gollwyd yn y pandemig COVID-19 a nodi'r cyfnod arbennig hwn yn ein hanes. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Tarddodd yr achosion o COVID-19 ddiwedd 2019 gan ledaenu ar draws y byd i gyd mewn mater o fisoedd. Datganodd Sefydliad Iechyd y Byd ei fod yn bandemig byd-eang ar 11 Mawrth 2020. Mae effaith COVID-19 ar ein cymdeithas wedi bod yn ddigynsail. Mae wedi arwain at golled nifer sylweddol o fywydau, ac mae'r tarfu economaidd a chymdeithasol a achoswyd gan y pandemig wedi bod yn sylweddol ar draws y byd ac yn y DU. Er nad yw'r feirws bellach yn achosi cymaint o heintiau difrifol ag y gwnaeth yn anterth y pandemig, mae'n parhau i gylchredeg ac yn parhau i effeithio ar fywydau llawer. Er bod yr effaith yn debygol o leihau'n raddol dros amser, mae'n annhebygol y bydd dyddiad gorffen clir. O ystyried maint y golled a brofwyd eisoes, a digwyddiadau digynsail y tair blynedd ddiwethaf, nawr yw'r amser cywir i ystyried sut i nodi a chofio'r cyfnod hwn yn ein hanes.

Ar ddechrau ein gwaith, fe wnaethom gytuno y byddai ymgysylltu â'r cyhoedd yn ganolog i gynhyrchu cyfres o gynigion a fyddai'n adlewyrchu dymuniadau ac anghenion pobl ledled y DU. Yn rhan o'n proses ymgynghori, lansiwyd ymgynghoriad ar-lein a gynhaliwyd rhwng 24 Hydref 2022 a 5 Rhagfyr 2022. Cafodd yr ymgynghoriad tua 5000 o ymatebion. Ochr yn ochr â hyn, cynhaliwyd cyfarfodydd â gwahanol sectorau a chynnal deg digwyddiad ledled y DU gan wahodd aelodau teuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth, a gwahanol sefydliadau a grwpiau a gafodd naill ai eu heffeithio gan COVID-19 neu a gyfrannodd at yr ymateb, i rannu eu barn a'u hawgrymiadau ar goffáu a chydnabod.

Fe wnaethon ni gydnabod yn gynnar bod sawl her i'r gwaith hwn, ac rydyn ni wedi nodi rhai o'r rhain i esbonio'r cyd-destun y gwnaed yr argymhellion hyn ynddo.

Gosodwyd y dasg o ystyried coffáu'r rhai a gollwyd a chydnabod y cyflawniadau, yr ymdrechion a'r aberthau a wnaed gan bobl mewn sawl sector. Roedden ni'n derbyn y byddai hon yn dasg anodd a fyddai angen mynd i'r afael â hi'n sensitif o ystyried y gwahanol emosiynau ynghlwm wrth goffáu colled ac i gydnabod cyflawniadau. Roedden ni hefyd yn cydnabod pryder teuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth na ddylen ni gyfuno'r naill a'r llall. Rydym wedi ceisio bod yn ymwybodol o hyn drwy gydol ein trafodaethau ac yn gobeithio bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr argymhellion a'r rhesymeg a osodwyd yn yr adroddiad hwn.

Amlygodd ein trafodaethau, yn ystod y digwyddiadau a gynhaliwyd gennym, y graddau yr oedd profiadau'n amrywio o un unigolyn i'r llall ac un gymuned i'r llall. Er bod llawer o'r boblogaeth wedi neu'n ceisio symud ymlaen erbyn hyn, nid yw'r pandemig ar ben i rai grwpiau megis dioddefwyr Covid hir a'r imiwnoataliedig sy'n parhau i gael ei effeithio gan y feirws. Felly wrth wneud yr argymhellion hyn, fe wnaethon ni gadw mewn cof y ffaith fod y pandemig yn parhau i fod yn fater byw iawn.

Roedd y digwyddiadau a gynhaliwyd gennym hefyd yn tynnu sylw at yr ystod eang o safbwyntiau ar goffáu. Yn aml, roedd y safbwyntiau hyn yn benodol i brofiadau unigol yn ystod y pandemig. O ystyried ehangder effaith y pandemig a'r nifer o ffyrdd gwahanol yr oedd wedi effeithio ac yn parhau i effeithio ar bobl, daeth yn amlwg yn gynnar na fyddai un ateb a fyddai'n gweithio i bawb, ac y dylai'r Comisiwn ganolbwyntio ar set o argymhellion sy'n cyflawni ein Cylch Gorchwyl.

Cytunodd y Comisiwn ar y deg argymhelliad a nodwyd yn adran Crynodeb o Argymhellion yr adroddiad hwn.

Cytunodd y Comisiwn i nodi'r cyfnod hwn o'n hanes, gweithgareddau wedi'u trefnu ledled y DU sy'n caniatáu i bobl fyfyrio a hefyd i ddeall beth aethom ni i gyd drwyddo yn bwysig. Bydd argymhellion 1 i 5 yn chwarae rhan sylweddol wrth gyflawni hyn. Bydd sefydlu Ymddiriedolaeth Coffáu Covid yn benodol yn allweddol i drefnu diwrnod o fyfyrio, gan sefydlu symbol a gwefan goffáu Covid (gw. argymhellion 1 i 3 a 5). Mae coffâd cyhoeddus am ddigwyddiadau yn arwydd o'u pwysigrwydd ac yn arwydd o barch arbennig at y rhai sydd wedi dioddef. Dylai cofio digwyddiadau pandemig COVID-19 hefyd helpu i sicrhau ein bod mewn sefyllfa well wrth wynebu pandemigau'r dyfodol. Ynghlwm wrth hyn mae ein hargymhelliad ar Addysg (gweler argymhelliad 4). Roedd cefnogaeth eang ymhlith y rhai y gwnaethom ymgysylltu â nhw i'r syniad o ddysgu am y pandemig mewn ysgolion a cholegau fel digwyddiad hanesyddol. Roedd hyn hefyd yn berthnasol i addysgu am y rôl sylweddol a chwaraeodd gwyddoniaeth wrth frwydro yn erbyn y feirws a phwysigrwydd adeiladu gwytnwch yn y dyfodol.

Cytunodd y Comisiwn hefyd fod cofebion yn chwarae rhan bwysig wrth goffáu. Yng nghyfnodau cynnar ein gwaith, fe wnaethon ni ystyried beth mae'n ei olygu i goffáu a pham mae'n arwyddocaol. Mae cofio'r pandemig fel cymdeithas a thrwy gofebion yn gallu uno cymunedau ledled y DU ac, yn bwysig iawn, gall sicrhau nad yw teuluoedd mewn profedigaeth yn teimlo eu bod wedi'u hynysu. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos COVID-19 wrth i'r cyfnodau clo, y rheoliadau pellhau cymdeithasol a hunanynysu darfu ar y defodau profedigaeth traddodiadol sydd mor hanfodol i'r rhai sy'n wynebu marwolaeth anwyliaid. Roedd mannau coffa hawdd eu cyrraedd hefyd yn un o'r pwyntiau mwyaf cyson a wnaed i ni yn ystod ein hymgynghoriad cyhoeddus. Er bod gwerth cofeb fawr wedi'i chydnabod, roedd y mwyafrif o'r rhai y buom yn siarad â nhw yn ffafrio man gwyrdd hygyrch, lleol a allai ddod â chymunedau at ei gilydd wrth gofio. Cytunwyd y byddai argymhellion 6 i 8 yn sicrhau'r cydbwysedd hwn yn fwyaf effeithiol.

Yn olaf o ran cydnabod, roedd y rhai yr oeddem yn ymgysylltu â nhw yn teimlo bod rhywfaint o gydnabyddiaeth yn ddyledus i bawb gan fod llawer o bobl mewn llawer o wahanol fathau o waith nad oeddent yn gallu aros o fewn diogelwch cymharol eu cartrefi ond yr oedd yn rhaid iddynt fynd allan i gynnal gwasanaethau cyhoeddus hanfodol gan gynnwys ymdrechion eithriadol a phrofiadau hynod heriol staff iechyd a gofal cymdeithasol yn anterth y pandemig. Cytunwyd ei bod yn bwysig cofio'r profiadau yr aeth pawb ohonom drwyddynt ac yr ydym yn pharhau i fynd drwyddynt, i gofio'r undod a deimlwyd ymhlith nifer o gymunedau a'r ysbryd gwirfoddoli a wasanaethodd fel achubiaeth i gymaint o unigolion yn ystod y cyfnod heriol hwn o'n hanes. Gobeithiwn y bydd ein hargymhelliad ar gofnodi hanesion llafar (gweler argymhelliad 9) yn atgof parhaus i ni a chenedlaethau'r dyfodol o'r hyn yr aeth pawb drwyddo yn ystod y pandemig, ac fel darn pwysig o waith a fydd yn anrhydeddu'r aberth a'r ymdrechion a wnaed gan lawer o grwpiau ac unigolion yn ystod y pandemig.

Cytunwyd hefyd bod rhaid cydnabod cyfraniadau gwyddoniaeth a'i bod yn briodol cyflwyno argymhelliad sy'n canolbwyntio ar gefnogi ymchwilwyr i weithio'n agos gyda llunwyr polisi o ran helpu i feithrin gwytnwch yn erbyn peryglon naturiol, sef sefyllfaoedd a allai achosi neu fygwth niwed difrifol i les dynol neu'r amgylchedd (gweler argymhelliad 10).

Gobeithiwn y bydd gweithredu'r argymhellion hyn yn rhoi rhywfaint o gysur i deuluoedd mewn profedigaeth a byddwn yn sicrhau nad yw'r cyfnod hwn o'n hanes a'r profiadau rhyfeddol yr aethom i gyd drwyddynt yn cael eu hanghofio. Credwn yn gryf y bydd yr argymhellion hyn hefyd yn gwasanaethu i annog gwell parodrwydd a helpu i feithrin gwytnwch yn erbyn peryglon naturiol yn y dyfodol. Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth y DU, ynghyd â Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn derbyn yr argymhellion hyn yn llawn.

# Crynodeb o'r Argymhellion

## Diwrnod o fyfyrdod

**Argymhelliad Un:** Dylid sefydlu diwrnod o fyfyrdod ledled y DU a'i gynnal yn flynyddol ar ddydd Sul cyntaf mis Mawrth.

## Symbol

**Argymhelliad Dau:** Mae'r Comisiwn yn argymell creu symbol newydd a gefnogir gan deuluoedd a gafodd brofedigaeth a'r rhai y mae Covid yn parhau i effeithio arnynt, i gynrychioli pandemig COVID-19 ac a fydd yn cyd-fynd â'r diwrnod o fyfyrio.

## Gwefan coffáu Covid

**Argymhelliad Tri:** Dylid sefydlu gwefan coffáu Covid gan Ymddiriedolaeth Goffáu Covid er mwyn hyrwyddo'r diwrnod o fyfyrdod, rhoi manylion cofebion lleol a gofodau coffaol, a chysylltu â chasgliadau yn ymwneud â Covid mewn amgueddfeydd gan gynnwys casgliadau o hanesion llafar gan amrywiaeth eang o grwpiau gan gynnwys teuluoedd mewn profedigaeth, gweithwyr rheng flaen, gwirfoddolwyr, y gymuned wyddonol a phobl ifanc.

## Addysg

**Argymhelliad Pedwar:** Dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon annog ysgolion a cholegau i addysgu am bandemig COVID-19, gan gynnwys profiadau pobl, rôl gwyddoniaeth a phwysigrwydd cymdeithas wydn. Dylai'r Ymddiriedolaeth Coffáu Covid ddatblygu a diweddaru deunyddiau addysgu i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir.

## Ymddiriedolaeth coffáu Covid

**Argymhelliad Pump:** Dylai Llywodraeth y DU, gan weithio gyda Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, sefydlu ymddiriedolaeth coffáu Covid i gydlynu'r diwrnod o fyfyrio a gweithgareddau coffáu Covid eraill.

## Mentrau coffáu a chofebion Covid presennol

**Argymhelliad Chwech:** Mae'r Comisiwn yn argymell y dylid cefnogi'r cynlluniau presennol i gadw Wal Goffa Genedlaethol Covid ac y dylid gwerthfawrogi a chydnabod mentrau presennol eraill am y rôl bwysig y maent yn ei chwarae wrth gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth a'r rhai sy'n chwilio am le tawel i fyfyrio.

## Cofebion newydd ledled y DU

**Argymhelliad Saith:** Mae'r Comisiwn yn argymell nodi tua 10 o fannau gwyrdd ar draws y DU a sefydlu cofeb newydd ym mhob lleoliad yn fan myfyrio tawel lle gall pobl ymgynnull.

## Cynllun ariannu cofebion lleol

**Argymhelliad Wyth:** Argymhelliad Wyth: Dylid sefydlu cynllun ariannu ar gyfer awdurdodau lleol ar draws y DU i sefydlu mannau coffa lleol mewn parciau presennol neu fannau gwyrdd yn eu hardaloedd.

## Hanesion llafar ac amgueddfeydd

**Argymhelliad Naw:** Dylai hanesion llafar o amrediad eang o grwpiau gan gynnwys teuluoedd mewn profedigaeth, gweithwyr rheng flaen, gwirfoddolwyr, y gymuned wyddonol a phobl ifanc gael eu casglu i gydnabod yr holl aberthau a'r ymdrechion a wnaed yn ystod y pandemig, ac i wasanaethu fel cofnod hanesyddol o'r cyfnod hwn o'n hamser ac yn arf addysgol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Gwyddoniaeth y DU

**Argymhelliad Deg:** Dylai Llywodraeth y DU, gan weithio gyda Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, gefnogi rhaglen gymrodoriaethau ôl-ddoethurol uchel ei bri a fydd yn galluogi ymchwilwyr ar ddechrau ac ar ganol eu gyrfa i weithio'n agos gyda llunwyr polisi i gefnogi parodrwydd ar gyfer risgiau a achosir gan beryglon naturiol.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pwrpas y Comisiwn

Mae pandemig COVID-19 wedi bod yn ddigwyddiad na fu ei debyg o fewn cof. Mae wedi effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau a phob cwr o'r Deyrnas Unedig, yn aml mewn ffyrdd gwahanol iawn. Teimlwyd yr effaith ar raddfa fyd-eang gan effeithio ar y rhan fwyaf o wledydd ledled y byd ryw ffordd neu'i gilydd. Wrth i'r byd barhau i addasu i fyw ochr yn ochr â COVID-19, mae'n bwysig cydnabod nad yw'r pandemig ar ben a bod llawer yn parhau i ddioddef o ganlyniad. Mae hefyd yn bwysig cymryd eiliad i bwyso a mesur y digwyddiad byd-eang hwn ac ystyried sut i gofio a chofnodi'r cyfnod hwn o'n hanes.

Sefydlwyd Comisiwn y DU ar Goffáu Covid ar 21 Gorffennaf 2022 i sicrhau consensws eang o bob rhan o'r Deyrnas Unedig ar sut y gallem goffáu pandemig COVID-19 a nodi'r cyfnod unigryw hwn yn ein hanes ar lefel y DU ac ar lefel gymunedol. Mae'n annibynnol ar y Llywodraeth ac yn hollol ar wahân i Ymchwiliad COVID-19 y DU. Mae'r Comisiwn wedi gweithio ledled y Deyrnas Unedig, i greu consensws ynghylch y mesurau y gellid eu rhoi ar waith i goffáu pandemig COVID-19 ac i nodi'r cyfnod unigryw hwn yn ein hanes.

Gofynnwyd i'r Comisiwn adrodd wrth y Prif Weinidog erbyn Mawrth 2023. Mae Cylch Gorchwyl y Comisiwn i'w weld yn Atodiad A o'r adroddiad hwn.

## 1.2. Y Comisiynwyr

Penodwyd aelodau'r Comisiwn ar 21 Gorffennaf 2022. Maen nhw'n dod o bob cwr o'r DU ac mae ganddyn nhw gefndiroedd amrywiol sy'n berthnasol i waith y Comisiwn. Y Comisiynwyr yw: Cadeirydd y Comisiwn, y Farwnes Morgan o Cotes (Nicky Morgan), Syr Nicholas Coleridge CBE DL, Dr Nadine Cossette, Y Gwir Anrhydeddus Caroline Flint, Denise Hayward, Felicia Kwaku OBE, Y Cadfridog Syr Gordon Messenger KCB, DSO & Bar, OBE DL, Gillian Norton OBE DL, Ndidi Okezie OBE, Yr Athro Keshav Singhal CBE, FLSW, a'r Athro Syr Mark Walport FRCP FRS FMedSci HonFRSE.

Gellir gweld bywgraffiadau o'r aelodau yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

## 1.3. Cefndir

Mae digwyddiadau coffáu yn gwasanaethu fel offer pwysig i nodi cyfnodau nodedig o'n hanes. Ceir sawl enghraifft megis y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd, a'r Holocost sy'n dangos sut y gall digwyddiadau coffa megis Sul y Cofio a Diwrnod Cofio'r Holocost helpu i adeiladu cyfnodau o hanes i ymwybyddiaeth cymdeithas Prydain, gan feithrin dealltwriaeth gyffredin o ddigwyddiadau ac atgoffa pobl o'r colledion a'r aberth a wnaed.

Ar y llaw arall, nid oes fawr ddim coffadwriaeth na myfyrdod cyhoeddus yn y DU ar y ffliw byd-eang ym 1918-19 (a elwir hefyd yn 'Ffliw Sbaen'). Mae hyn er gwaethaf nifer uchel y marwolaethau yr amcangyfrifir ei fod tua 228,000 ym Mhrydain, a dros 50 miliwn ar draws y byd[1]. Mae effaith y Rhyfel Byd Cyntaf yn debygol o fod wedi chwarae rhan allweddol yn hyn, gan gysgodi effeithiau'r pandemig ffliw. Credir hefyd, yn wahanol i ryfel, na ellid yn hawdd cyflwyno'r marwolaethau yn rhai sy'n cynrychioli aberth arwrol neu fod yn rhan o frwydr genedlaethol yn erbyn gelyn cyffredin. Fel sy'n wir ar hyn o bryd gyda phandemig COVID-19, does dim dyddiad terfyn clir i bandemig chwaith. Arweiniodd y cyfuniad o'r ffactorau hyn a sawl un arall at ddiffyg coffáu cyhoeddus a phandemig anghofiedig at ei gilydd o safbwynt bywyd cyhoeddus.

Ac eto, ychydig dros ganrif ar ôl pandemig 1918-1919, mewn cymdeithasau modern lle mae gwell maeth, brechlynnau, gwrthfiotigau ac offer eraill o ran ymarfer meddygol datblygedig wedi lleihau'n fawr baich salwch a marwolaeth oherwydd clefydau heintus, mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith enfawr ar ein cymdeithas mewn ffyrdd amrywiol ac, i lawer, yn parhau i wneud hynny. Rydym yn credu ac wedi cael gwybod ei bod yn bwysig cofio'r digwyddiadau hyn a'r profiadau yr aeth pob un ohonom drwyddynt ac rydym yn pharhau i fynd drwyddynt, yn enwedig yn achos y rhai y mae'r feirws a'i effeithiau yn parhau i effeithio arnynt. Mae hefyd yn bwysig cofio ymdrechion eithriadol staff iechyd a gofal cymdeithasol yn anterth y pandemig, yr undod a deimlid mewn nifer o gymunedau a'r ysbryd o wirfoddoli a fu'n achubiaeth i gynifer o unigolion yn ystod y cyfnod heriol hwn yn ein hanes.

Mae cofio'r pandemig diweddaraf hwn yn bwysig am sawl rheswm. Effeithiodd COVID-19 ar bawb ledled y DU ac o amgylch y byd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Mae graddfa'r bywydau a gollwyd i COVID-19 yn y DU yn sylweddol, gan nodi bod nifer y marwolaethau yn parhau i gynyddu er bod hynny ar gyflymder llawer arafach nag yn anterth y pandemig. Roedd hefyd lawer o farwolaethau a ddigwyddodd yn anuniongyrchol yn sgil y pandemig, o ganlyniad i'r tarfu ar ofal iechyd arferol a chanlyniadau clefydau ar wahân i COVID-19 a gafodd ddiagnosis yn hwyr neu ddim o gwbl. Mae'n bwysig cofio'r bobl hynny a gollodd eu bywydau yn ystod y pandemig a chynnig cefnogaeth i'r teuluoedd niferus mewn profedigaeth. Mae cofio'r pandemig fel cymdeithas a thrwy gofebion yn gallu uno cymunedau ledled y DU a sicrhau nad yw teuluoedd a gafodd brofedigaeth yn teimlo eu bod wedi'u hynysu. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos COVID-19 am i'r cyfnodau clo, y rheoliadau pellhau cymdeithasol a hunanynysu darfu ar y defodau profedigaeth traddodiadol sydd mor hanfodol i'r rhai sy'n wynebu marwolaeth anwyliaid. O ystyried nifer y prosiectau sydd eisoes ar y gweill i goffáu'r pandemig a'r rhai a ddioddefodd ac a fu farw, mae'r Comisiwn o'r farn mai hon yw'r adeg briodol i ystyried y cwestiwn sut yr ydym yn nodi'r cyfnod hwn yn ein hanes ar lefel genedlaethol. Rydym hefyd yn cydnabod bod coffáu digwyddiadau cyhoeddus yn arwydd o'u pwysigrwydd yn y gorffennol, y presennol a hefyd yn y dyfodol. Dylai sicrhau bod pandemig COVID-19 yn cael ei gofio hefyd helpu i sicrhau ein bod mewn sefyllfa well wrth wynebu pandemigau'r dyfodol

.

[1] Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

## 1.4. Yr agwedd at ein gwaith

Cafodd y Comisiwn y dasg o argymell ffyrdd y gallai'r DU gofio am anwyliaid a gollwyd, i anrhydeddu gwaith y staff iechyd a gofal cymdeithasol hynny a weithiodd i achub bywydau a dewrder gweithwyr rheng flaen sydd wedi cadw ein gwlad i fynd, dathlu athrylith y rhai a ddysgodd yn gyflym y ffyrdd gorau o drin COVID-19, ac a greodd y brechlynnau, a choffáu'r gweithredoedd bach o garedigrwydd ac aberth dyddiol miliynau a arhosodd gartref.

Rhannwyd ein dull o ateb yr amcan hwn yn dri cham. Roedd y cam cyntaf yn rhan o'r broses o edrych ar fentrau presennol ar draws y DU a'r byd. Roedd Cam dau yn gyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd a oedd yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus a chyfarfodydd â theuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth yn ogystal â sefydliadau a grwpiau yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig neu a gyfrannodd at yr ymateb iddo. Roedd hyn hefyd yn cynnwys ymgysylltu ag academyddion sy'n arbenigo ym maes coffáu ac astudiaethau cof. Roedd y cam olaf yn cynnwys tynnu ein holl ganfyddiadau i'r set o argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn.

### Mentrau presennol

Ceisiodd y Comisiwn gael rhagor o wybodaeth am fentrau coffáu presennol yn y DU ac yn rhyngwladol. Edrychwyd hefyd ar sut y bu digwyddiadau eraill yn ein hanes yn cael eu cofio. Ochr yn ochr â'n hymchwil, lansiwyd arolwg yn gwahodd aelodau'r cyhoedd ar draws y Deyrnas Unedig i rannu manylion gweithgareddau coffáu Covid yn agos atynt. Gwelsom fod llawer o fentrau eisoes ar y gweill yn y DU ac roedd y Comisiwn yn awyddus y dylai ei argymhellion geisio ategu ac adeiladu ar fentrau presennol.

### Ymgysylltu â'r cyhoedd

Cytunodd y Comisiwn yn gynnar y byddai ymgysylltu â'r cyhoedd yn chwarae rhan allweddol wrth gynhyrchu cyfres o gynigion a fyddai'n adlewyrchu dymuniadau ac anghenion pobl ledled y DU. Fe wnaethom lansio ymgynghoriad cyhoeddus ledled y DU wrth gynnal hefyd ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Fe wnaethom lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus ar 24 Hydref 2022 am gyfnod o 6 wythnos. Roedd yr ymgynghoriad yn deillio o'n gwaith yn y cyfnod ymchwil sy'n edrych ar enghreifftiau yn y DU ac yn rhyngwladol o goffáu sy'n gysylltiedig â COVID-19. Roedd yr ymgynghoriad ar ffurf arolwg hunanddethol, a oedd yn agored i holl gyhoedd y DU ac fe'i defnyddiwyd i gael barn am y ffordd yr oedd pobl yn teimlo y dylid cofio'r pandemig. Mae dadansoddiad manwl o'r canfyddiadau yn Atodiad C.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliwyd deg digwyddiad ledled y DU gan wahodd sefydliadau a grwpiau amrywiol naill ai yr oedd COVID-19 wedi effeithio arnynt neu a gyfrannodd at yr ymateb, i rannu eu barn a'u hawgrymiadau ar gyfer coffáu.

Ochr yn ochr â'r digwyddiadau a gynhaliwyd ar draws y DU, cynhaliwyd cyfarfodydd â gwahanol sectorau gan gynnwys grwpiau busnes, grwpiau anabledd, addysg, amgueddfeydd, y gymuned wyddonol, y sector trafnidiaeth, undebau, gwirfoddoli a grwpiau ieuenctid. Bu'r comisiynwyr hefyd yn cynnal trafodaethau a chyfarfodydd

ychwanegol â rhwydweithiau a grwpiau oedd ar gael iddynt yn rhinwedd eu swydd broffesiynol. Defnyddiwyd y trafodaethau i brofi ymhellach a dilysu'r themâu a'r syniadau a oedd yn dod i'r amlwg o'r digwyddiadau cyhoeddus ac ymgynghori.

Fe wnaethom hefyd siarad ag academyddion ac arbenigwyr ym maes coffáu ac astudiaethau cof yn ystod y cyfnod gwaith hwn. Helpodd eu cyfraniad ni i ddeall pwysigrwydd cofio digwyddiad fel pandemig COVID-19 a'r pethau i'w hystyried wrth lunio'r argymhellion hyn. Codasant bwyntiau pwysig megis bod ein perthynas â digwyddiad yn newid dros amser a bod rhaid cofio hyn wrth lunio argymhellion a allai fod yn barhaus. Gwelsom fod llawer iawn o gefnogaeth ar y cyfan i sefydlu'r Comisiwn a'i waith ymhlith academyddion sy'n ymchwilio i faes coffáu, astudiaethau cof, marwolaethau pandemig a galar.

Wrth wraidd gwaith y Comisiwn oedd ein hymgysylltiad â theuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth. Roedd eu profiadau yn ystod y pandemig yn unigryw, yn arbennig o ran absenoldeb defodau profedigaeth arferol a chefnogaeth i alaru iddynt yn ystod y pandemig. Rydym yn cydnabod felly y bydd ystyried sut i goffáu nawr yn arbennig o bwysig i'r grŵp hwn. Roeddem hefyd yn cydnabod pwysigrwydd eu cyfranogiad yn y broses hon ac felly'n gweithio'n agos gyda nhw, gan ymgysylltu ar lefel sefydliadol yn ogystal ag unigolion mewn profedigaeth o amgylch y DU.

Trwy gydol y cyfnod hwn, rydym hefyd wedi derbyn llawer o syniadau gan y cyhoedd a sefydliadau ar sut y gellid coffáu a chofio COVID-19. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r nifer o syniadau a anfonwyd at Lywodraeth y DU cyn i ni gael ein sefydlu. Rydym yn ddiolchgar i bawb a anfonodd eu syniadau i mewn. Roedd y rhain yn ffynonellau ysbrydoliaeth defnyddiol ac yn gyfeiriadau defnyddiol wrth ystyried pa argymhellion y dylem eu gwneud.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd eu hamser a rhoi mewnbwn i'r gwaith pwysig hwn. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r aelodau teulu hynny a gafodd brofedigaeth ac a gymerodd yr amser i rannu eu straeon anodd â ni a'u barn ar y ffordd orau i goffáu colli eu hanwyliaid.

Mae rhestr o'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn Atodiad D.

## Llunio'r argymhellion

Cynhaliwyd cyfarfodydd misol aelodau'r Comisiwn i drafod ein canfyddiadau a chynnydd ein gwaith. Cyhoeddwyd crynodeb o bob un o'r cyfarfodydd hyn yn fuan ar ôl hynny ar ein tudalen gov.uk[2]. The Commission used these meetings to discuss and formulate what we believed would Defnyddiodd y Comisiwn y cyfarfodydd hyn i drafod a llunio'r hyn yr oeddem yn ei gredu fyddai'r set fwyaf priodol o argymhellion yn seiliedig ar y themâu a'r canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg ac a wnaed drwy gydol y cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd yn ein gwaith. Mae hyn yn cael ei drafod yn fanylach yn adran dau o'r adroddiad hwn.

2 https://www.gov.uk/government/organisations/uk-commission-on-covid-commemoration

# 2. Canfyddiadau ac Argymhellion

Mae'r adran hon yn nodi canfyddiadau allweddol yr ymgynghoriad cyhoeddus[3] a'r digwyddiadau a'r cyfarfodydd niferus a gynhaliwyd gennym â gwahanol grwpiau, sefydliadau a'r cyhoedd. Yma rydym yn nodi'r canfyddiadau hyn sydd wedi arwain at ein hargymhellion.

## 2.1. Cyd-destun

Fe wnaeth y Comisiwn gydnabod yn gynnar yr her o ystyried coffáu'r rhai a fu farw a chydnabod y cyflawniadau, yr ymdrechion a'r aberthau a wnaed gan bobl mewn sawl sector. Clywsom gan deuluoedd a gafodd brofedigaeth ei bod yn bwysig iddynt na ddylid cyfuno'r naill a'r llall ac mae argymhellion y Comisiwn yn ystyried hyn. Rydym wedi ceisio bod yn ymwybodol o hyn drwy gydol ein trafodaethau.

Clywsom hefyd yn aml fod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar bawb mewn rhyw ffurf neu'i gilydd. Rhaid cydnabod effaith cyfyngiadau ar blant a phobl ifanc, yn enwedig colli cyfleoedd addysgol a chymdeithasol ar adegau mor bwysig mewn bywyd. Yn bwysicaf oll, rydym yn cydnabod, er bod llawer o'r boblogaeth wedi symud ymlaen neu'n ceisio gwneud hynny, nad yw'r pandemig ar ben i rai grwpiau megis dioddefwyr Covid hir a'r rhai sy'n imiwnoataliedig. Rydym yn cydnabod hefyd nad yw llawer o deuluoedd a gafod brofedigaeth wedi gallu symud ymlaen ers y pandemig oherwydd y trawma a gawsant. Mae hyn yn gwneud yr angen i goffáu yn fwy perthnasol fyth oherwydd bod ymchwil wedi dangos y gall cydnabyddiaeth gyhoeddus helpu i ddilysu a cyfreithloni profiadau pobl.

Clywodd y Comisiwn hefyd gan grwpiau a fynegodd amheuaeth ynghylch difrifoldeb clefyd COVID-19 á chryn ddicter a gwrthwynebiad i ymateb y Llywodraeth a chyflwyniad y gwahanol gyfnodau clo, yn ogystal â chynlluniau'r Comisiwn i goffáu. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad hwn ,mae'r Comisiwn yn anghytuno'n gryf â'r safbwyntiau hyn.

O ystyried ehangder effaith y pandemig a'r nifer o ffyrdd gwahanol yr oedd wedi effeithio ac yn parhau i effeithio ar bobl, daeth yn amlwg yn gynnar na fyddai un ateb a fyddai'n gweithio i bawb, ac y dylai'r Comisiwn ganolbwyntio ar set o argymhellion sy'n cyflawni ein Cylch Gorchwyl.

---

3 Mae canlyniadau llawn yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r fethodoleg a fabwysiadwyd i'w gweld yn Atodiad C.

Wrth osod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, roedd y Comisiwn hefyd yn awyddus i sicrhau y byddai'r mesurau sy'n cael eu hystyried yn barhaus ac yn berthnasol i genedlaethau'r dyfodol, ac y gallent gwmpasu unrhyw bandemig yn y dyfodol hefyd.

## Arsylwadau ehangach

Yn ogystal â'r cyd-destun cyffredinol a nodir uchod, nododd y Comisiwn y pwyntiau isod.

### Dicter a rhwystredigaeth teuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth

Roedd teuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth yn aml yn mynegi'r teimlad na allan nhw anghofio'r hyn a brofwyd ganddynt yn ystod y pandemig. Er bod llawer o bobl i'w gweld yn trin y pandemig fel pe bai drosodd, sylwodd y Comisiwn fod llawer o ddicter yn parhau ymhlith teuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth. Yn aml byddent hefyd yn sôn am deimlad o drawma ac anallu i gloi'r profiad dioddefus. Codwyd yr Ymchwiliad COVID-19 droeon ac er ein bod yn wahanol i'r ymchwiliad ac nad oes gennym gysylltiadau â'r ymchwiliad, fe wnaeth teuluoedd rannu eu rhwystredigaethau a'u gobeithion y byddai gwersi'n cael eu dysgu o ganlyniadau'r ymchwiliad. Roeddem am adlewyrchu bod y safbwyntiau hyn wedi cael eu rhoi i ni a'n bod yn deall pwysigrwydd yr ymchwiliad i'r teuluoedd y gwnaethom siarad â nhw.

### Dioddefwyr Covid hir ac imiwnedd gwan

Yn ystod cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd yn ein gwaith, clywsom hefyd yn aml gan ddioddefwyr Covid hir a'r rhai sydd ag imiwnedd gwan. Mewn llawer o achosion, mae effaith fawr ar eu bywydau bob dydd o hyd oherwydd eu hiechyd. Er bod y mater hwn y tu allan i gwmpas gwaith y Comisiwn, hoffem dynnu sylw Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig at y grwpiau hyn, pe bai lle i gynnal ymchwil a gwaith ychwanegol yn y maes hwn.

### Ymchwil i brofedigaeth

Roedd llawer o deuluoedd mewn profedigaeth y gwnawthom siarad â nhw yn cyfeirio at yr her benodol o gael profedigaeth yn ystod y pandemig ac yn aml yn sôn am effaith cyswllt dynol ddim yn cael ei ganiatáu a'r effaith yr amharu ar ddefodau profedigaeth traddodiadol. Sefydlwyd Comisiwn y DU ar Brofedigaeth ym mis Mehefin 2021 i ymchwilio i ba mor dda yw'r DU wrth gynorthwyo pobl trwy brofedigaeth, a beth y gellir ei wneud i wella'r cymorth hwnnw nawr ac yn y dyfodol. Cyhoeddwyd ei adroddiad yn Hydref 2022 a gwnaeth sawl argymhelliad. Cytunodd y Comisiwn y byddai eu hargymhelliad i gynnal "rhagor o ymchwil i ddeall anghenion cymorth emosiynol pobl yr effeithir arnynt gan brofedigaeth" yn werthfawr iawn, yn enwedig pe bai'r ymchwil hwn yn archwilio'n benodol effaith absenoldeb y defodau profedigaeth arferol ar y golled a ddioddefodd teuluoedd mewn profedigaeth er mwyn cynnig gwersi ar gyfer y dyfodol.

## 2.2. Themâu allweddol

Canfu'r Comisiwn sawl thema yn dod yn gyson i'r amlwg o'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau a gynhaliwyd. Mae'r rhain wedi'u nodi isod.

**Thema 1: Cofio cenedlaethol a lleol**

Roedd consenswS cryf ar draws y bobl yr oeddem yn ymgysylltu â nhw y dylai mentrau coffáu fod yn hawdd eu cyrraedd. Ystyrid mentrau ar lefel leol a rhanbarthol, megis mannau gwyrdd pwrpasol, yn allweddol wrth ddarparu mannau hygyrch lleol i fyfyrio'n dawel. Gwerthfawrogwyd hefyd y mannau hyn er mwyn dod â chymunedau at ei gilydd yn y cofio. Fodd bynnag, clywsom hefyd yr ystyrid cofeb genedlaethol effaith gref ar raddfa fawr yn bwysig wrth grisialu maint y golled a'r aberth.

**Thema 2: Cofio profiadau unigolion**

Gwelsom fod cefnogaeth gref i gofio amrywiaeth y profiadau yn gywir yn ystod y pandemig ar draws yr holl ddigwyddiadau a gynhaliwyd gennym. Roedd llawer o'r farn fod cael ymwybyddiaeth o brofiadau unigol a'r gwirioneddau amlwg a brofwyd gan wahanol grwpiau yn hanfodol wrth gofio'r pandemig yn gyfnod a effeithiodd ar bawb. Gwelsom fod y syniad hwn yn fwyaf amlwg ymhlith pobl a oedd wedi cael profedigaeth ac a oedd yn teimlo'n gryf iawn y dylid cofio eu hanwyliaid yn "enwau nid rhifau".

**Thema 3: Mentrau sy'n edrych tua'r dyfodol**

Yn aml, gwelsom fod ymdrech i'r Comisiwn argymell mentrau a fydd yn ychwanegu gwerth at gymdeithas. Mae hyrwyddo mentrau gwirfoddoli ac ymchwil i atal, lliniaru a rheoli peryglon naturiol yn enghreifftiau o'r mentrau hyn. Cynhaliwyd llawer o'n hymgysylltiad rhwng mis Medi a Rhagfyr 2022. Yn ystod yr ymgysylltu hwn, clywsom bryder ynghylch y caledi ariannol a wynebai nifer, gyda rhybudd yn erbyn argymhellion rhy seremonïol a chostus gan ffafrio mentrau a fyddai'n rhoi gwerth yn ôl i'r gymdeithas. Nododd y Comisiwn hefyd y dylai mentrau coffáu fod yn rhai parhaus i lawer o bobl, a pharhau'n berthnasol i genedlaethau'r dyfodol. Roedd ymdeimlad na ddylai'r mentrau hyn bylu na chael eu hanghofio'n hawdd.

**Thema 4: Digido**

Gwelsom fod cytundeb eang ymhlith y rhai a oedd yn ymwneud â ni y dylid datblygu gwefan i ategu cofebion a digwyddiadau coffáu. Ffafriwyd dau syniad yn arbennig; adnodd ar-lein ar gyfer dod o hyd i ddigwyddiadau coffáu Covid gerllaw, a defnyddio archifau digidol i gofio profiadau byw drwy straeon llafar. Roedd syniadau hefyd yn cynnwys darparu cysylltiadau digidol mewn safleoedd coffa i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am gofeb benodol ac i alluogi'r enwau a'r straeon am y rhai a goffeir i fod yn hawdd eu cyrraedd ar-lein. Ystyriwyd bod yr offer digidol hyn yn hanfodol wrth gadw'r cof am yr hyn a brofodd pobl yn ystod y pandemig yn fyw.

## 2.3. Nodi'r cyfnod hwn yn ein hanes

### Diwrnod o fyfyrio

Gwelsom fod cefnogaeth eang ar gyfer diwrnod blynyddol o fyfyrio, yn fwyaf arbennig ymysg teuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth. Fodd bynnag, roedd llawer o safbwyntiau ar beth yn union y dylai'r diwrnod ei gynrychioli.

- *Cofio pawb a fu farw:* Roedd y rhan fwyaf o'r rhai y buom yn ymgysylltu â nhw yn cytuno y dylai'r diwrnod o fyfyrio ganolbwyntio ar bob marwolaeth drwy gydol y pandemig gan gynnwys marwolaethau nad ydynt yn ymwneud â Covid. Fodd bynnag, roedd rhai teuluoedd mewn profedigaeth yn teimlo y dylai'r diwrnod ganolbwyntio ar y rhai a fu farw o COVID-19. Mae'n bwysig cydnabod mai un o'r rhesymau y teimlwyd bod colli anwyliaid yn ystod y pandemig yn fwy trawmatig fyth oedd cael gwared ar y defodau profedigaeth arferol. Nid oedd llawer o bobl yn gallu gweld teulu a ffrindiau a dywedodd mai ychydig iawn o fynediad a oedd ganddynt at gefnogaeth ffurfiol ar ôl i'w hanwyliaid farw. Roedd rheoliadau cyfnodau clo, cysgodi a hunanynysu yn gadael pobl yn teimlo eu bod ar eu pen eu hunain yn eu galar. Dwysawyd hyn ymhellach gan y diffyg cyswllt wyneb yn wyneb â gwasanaethau gofal sylfaenol a gwasanaethau yn y gymuned, a gwasanaethau cymorth profedigaeth. Tynnwyd llawer o'r defodau hyn o bob teulu mewn profedigaeth, boed i'w hanwyliaid farw oherwydd Covid neu oherwydd achosion eraill.
- *Diwrnod o gofio neu fyfyrio:* Wrth drafod y syniad hwn, fe roddon ni ystyriaeth ofalus i'r derminoleg i'w defnyddio. Fe wnaethon ni ystyried diwrnod o gofio a diwrnod o fyfyrio ac roedden ni'n teimlo mai'r olaf fyddai'n fwyaf priodol. Fel y soniwyd eisoes, cydnabu'r Comisiwn yn gynnar yr her o ystyried coffáu'r rhai a gollwyd a chydnabod y cyflawniadau, yr ymdrechion a'r aberthau a wnaed gan bobl mewn sawl sector. Fe wnaethon ni barhau'n sensitif i'r ffaith, i'r teuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth, na ddylid cyfuno'r naill a'r llall. Nodwyd, fodd bynnag, fod nifer o'r trafodaethau a gawsom gyda theuluoedd a oeddd wedi cael profedigaeth a grwpiau eraill yr effeithiwyd arnynt neu a oedd wedi ymwneud â'r ymateb i'r pandemig yn cyfeirio at y ffaith yr effeithiwyd ar bawb mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn ystod y pandemig. Collodd pawb rywbeth. Ar un pen i'r raddfa, collodd pobl eu hanwyliaid yn yr amodau mwyaf dirdynnol. Collodd rhai amser gydag anwyliaid, cyfleoedd addysgol neu yrfa neu ddim ond rhywfaint o'r rhyddid yr ydym mor gyfarwydd ag ef. Adlewyrchwyd y colledion hyn ar draws sawl rhan o'r byd ac nid y DU yn unig.
- *Diwrnod o fyfyrio:* Roedd diwrnod o fyfyrio yn ymddangos yn fwy addas gan y byddai'n caniatáu i bawb fyfyrio ar y cyfnod unigryw hwn yn ein hanes yn ogystal â'u profiadau eu hunain. Mae diwrnod o fyfyrio hefyd yn caniatáu inni gydnabod nad yw Covid drosodd eto a bod y pandemig yn parhau i effeithio ar nifer, er enghraifft, dioddefwyr Covid hir a'r rhai sydd ag imiwnedd gwan. Drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus, gwelsom hefyd fod pobl yn teimlo y dylai pawb a weithiodd i gadw'r wlad i redeg drwy gydol y pandemig gael eu cydnabod am eu hymdrechion yn hytrach na grwpiau penodol. Byddai diwrnod o fyfyrdod yn caniatáu inni gydnabod pawb am eu hymdrechion a'u haberthau a wnaed yn ystod y pandemig. Byddai'n caniatáu inni adlewyrchu a chydnabod gwaith diflino gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gwaith hynod werthfawr pob un o'r rhai a ddatblygodd driniaethau effeithiol, a'r rhai a greodd y brechlyn i enwi dim ond rhai.

- *Dydd Sul cyntaf mis Mawrth:* Cawsom lawer o safbwyntiau amrywiol ar beth dylai dyddiad y dydd o fyfyrio fod. Cyflwynodd yr ymgynghoriad cyhoeddus chwe dyddiad: 30 Ionawr, dyddiad yr achos cyntaf a gafodd ei gadarnhau yn y DU, 5 Mawrth, dyddiad cyhoeddi'r farwolaeth gyntaf a gofnodwyd yn y DU, 11 Mawrth, dyddiad y datganodd Sefydliad Iechyd y Byd bandemig, 23 Mawrth, dyddiad dechrau'r cyfnod clo cyntaf a hefyd diwrnod cenedlaethol o adlewyrchu Marie Curie, 7 Ebrill, Diwrnod Iechyd y Byd a 5 Gorffennaf, y dyddiad y sefydlwyd y GIG. Er bod rhai o'r rhai y buom yn siarad â nhw yn bersonol yn ffafrio 23 Mawrth, roedd llawer o deuluoedd mewn profedigaeth yn teimlo'n gryf bod y diwrnod o fyfyrio i'r cyfnod clo yn ymddangos yn rhy wleidyddol. Roedden nhw o blaid dyddiad penodol i'r pandemig. Nodwyd fodd bynnag mai mis Mawrth oedd y mis mwyaf perthnasol i'r pandemig. Cafodd hyn ei gefnogi gan yr ymgynghoriad cyhoeddus a ddatgelodd ddim dyddiad clir oedd yn cael ei ffafrio ond roedd yn dangos 3 allan o'r 4 opsiwn a ffefrir yn gostwng ym mis Mawrth. O ystyried yr amrediad eang o safbwyntiau, cytunodd y Comisiwn mai cynnal diwrnod o fyfyrio ar ddydd Sul cyntaf mis Mawrth fyddai fwyaf priodol. Roedden ni'n cytuno y byddai dydd Sul yn arbennig o briodol gan fod llai o bobl yn tueddu i weithio ar ddydd Sul. Fe fyddai felly'n ddiwrnod haws i lawer gymryd eiliad i gofio'r anwyliaid hynny a gollwyd a myfyrio ar y cyfnod unigryw hwn yn ein hanes yn ogystal â'u profiad eu hunain.
- *Dyddiau Sul eraill ym mis Mawrth:* byddai Sul cyntaf Mawrth ar adegau yn gwrthdaro â digwyddiadau a dathliadau eraill megis Dydd Gŵyl Dewi neu Sul y Mamau. Cytunwyd yn yr achosion hynny, y byddai'r Ymddiriedolaeth Coffáu Covid (gweler Argymhelliad Pump isod), a fyddai'n gyfrifol am ei drefnu, yn dewis Sul gwahanol ym mis Mawrth ar gyfer y diwrnod o fyfyrio.

**Argymhelliad Un:** Dylid sefydlu diwrnod o fyfyrio ledled y DU a'i gynnal yn flynyddol ar ddydd Sul cyntaf mis Mawrth.

## Symbol

Gwelsom fod cefnogaeth eang i symbol Covid ymhlith y rhai yr oeddem yn ymwneud â nhw yn bersonol ac yng nghanlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus, a oedd yn dangos bod mwy na hanner y bobl o blaid symbol. Roedd llawer o bobl yn teimlo y gellid defnyddio'r symbol fel marc adnabod ar gyfer mentrau coffáu lleol a chenedlaethol i ddangos eu bod yn gysylltiedig â'r un digwyddiad.

Pan ddaethom i ystyried beth allai'r symbol hwnnw fod, daeth yn amlwg yn ein trafodaethau á grwpiau teuluoedd mewn profedigaeth, bod sawl symbol a oedd yn taro tant yn arbennig â theuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth a hefyd bod hwn yn bwnc emosiynol iawn.

- *Symbolau'r galon:* Daethom o hyd i'r galon felen a'r galon goch i fod yn symbolau sefydledig ymhlith llawer o deuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth. Cafodd y galon felen ei ffafrio gan rai teuluoedd mewn profedigaeth yn symbol i bawb fu farw o Covid neu o achosion eraill yn ystod y pandemig. Ond roedd eraill yn teimlo bod cysylltiad rhy agos rhwng y symbol, ac yn benodol y lliw melyn, â Marie Curie sy'n defnyddio'r genhinen felen yn symbol. Roedd eraill y buom yn siarad â nhw yn ffafrio'r galon goch sydd â chysylltiad agos â'r Wal Goffa Covid Genedlaethol. Fodd bynnag, mae'r galon goch yn cynrychioli marwolaethau COVID-19 yn unig ac nid yw'n cynnwys marwolaethau o achosion eraill. Gwelsom hefyd fod y galon goch eisoes yn gwasanaethu fel y symbol ar gyfer Sefydliad Prydeinig y Galon ac wrth gwrs mae'n cael ei gysylltu'n eang â'r symbol am gariad.
- *Symbol newydd:* Roedd yn amlwg i'r Comisiwn fod hwn yn bwynt trafod emosiynol ac anodd gan y canfuom ymlyniad emosiynol cryf at y calonnau coch a melyn. Gwelsom hefyd nad oedd defnydd naill ai'r galon felen neu'r galon goch yn cael cefnogaeth dioddefwyr Covid hir, a llawer sy'n parhau i ddioddef o effeithiau'r pandemig gan fod y ddau symbol yn cynrychioli colled yn hytrach nac effaith Covid. Cytunodd y Comisiwn, er y byddai angen symbol, bod angen i ni hefyd gydnabod yr anawsterau wrth gymeradwyo symbol sy'n bodoli eisoes, o ystyried y nifer o safbwyntiau gwahanol. Cytunwyd efallai mai symbol newydd yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen.
- *Blodyn Zinnia:* Roedd llawer o'r rhai y gwnaethom gyfarfod â nhw'n ffafrio'r syniad o flodyn a oedd yn cynrychioli'r pandemig yn ei gyfanrwydd. Mae amryw o flodau wedi eu hawgrymu a chanfu'r Comisiwn y gallai blodyn Zinnia yn arbennig fod yn ddewis da ar gyfer symbol newydd. Mae gan y Zinnia nifer o ystyron gwahanol ac fel arfer mae'n gysylltiedig â chyfeillgarwch, dycnwch, cofio dyddiol, daioni, ac anwyldeb parhaol - y cyfan yn berthnasol iawn i'r amrywiaeth o brofiadau y buwyd yn byw drwyddynt yn ystod y pandemig. Mae blodau Zinnia hefyd yn blodeuo mewn llawer o arlliwiau gwahanol.

Er i'r Comisiwn ddod i'r casgliad bod angen symbol newydd, rydym yn cydnabod y bydd angen profi hynny'n addas â theuluoedd mewn galar a'r rhai y mae Covid yn parhau i effeithio arnynt. Fe wnaethom gytuno y byddai angen gwneud y gwaith hwn cyn dod i benderfyniad ar yr union symbol. Cytunwyd hefyd mai'r Ymddiriedolaeth Coffáu Covid (gweler Argymhelliad Pump isod) fyddai yn y sefyllfa orau i gyflawni'r gwaith hwn.

**Argymhelliad Dau:** Mae'r Comisiwn yn argymell creu symbol newydd a gefnogir gan deuluoedd a gafodd brofedigaeth a'r rhai y mae Covid yn parhau i effeithio arnynt, i gynrychioli pandemig COVID-19 ac a fydd yn cyd-fynd â'r diwrnod o fyfyrio.

## Gwefan coffáu Covid

Canfuom gefnogaeth eang i wefan coffáu Covid i fod yn ffynhonnell gwybodaeth ar gofebion Covid a gweithgareddau coffáu, a thua dwy ran o dair o'r bobl yn cefnogi'r syniad yn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Ymhellach, ers lansio'r Comisiwn, rydym wedi arsylwi bod llawer o fentrau lleol eisoes ar y gweill. Fodd bynnag, nid oedd llawer o'r rhai yr oeddem yn ymgysylltu â nhw yn ymwybodol o hyd yn oed y mentrau mwyaf lleol ac felly roeddent yn gefnogol iawn i'r syniad o gael gwefan gynhwysfawr a hygyrch sy'n nodi mentrau coffáu a chydnabod ledled y DU.

Roedd llawer o deuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth y buom yn siarad â nhw yn teimlo'n gryf y dylid cofio am eu hanwyliaid mewn enw ac nid fel rhif neu ystadegyn yn unig. Gallai'r wefan fod o gymorth yn hyn o beth hefyd drwy ganiatáu i berthnasau a ffrindiau gyfrannu negeseuon coffa a bywgraffiadau o anwyliaid a fu farw. Dylai'r wefan gael ei sefydlu a'i chynnal gan y Covid Commemoration Trust (gweler Argymhelliad Pump isod).

Ar ôl ystyried ymhellach ac yn seiliedig ar yr adborth a gawsom, gwelsom y gallai gwefan goffáu Covid hefyd fod yn ffynhonnell gwybodaeth am amrywiaeth o fentrau cysylltiedig â Covid a dylai anelu at ddarparu o leiaf:

- map rhyngweithiol/darganfyddwr cod post o ddigwyddiadau a gofodau coffáu Covid lleol
- tudalen â chysylltiadau â'r nifer o fentrau presennol gan amgueddfeydd a sefydliadau sy'n ceisio dogfennu'r hyn yr aethom i gyd drwyddo yn ystod y pandemig, gan gynnwys hanesion llafar o amrediad eang o grwpiau gan gynnwys teuluoedd mewn profedigaeth, gweithwyr rheng flaen, gwirfoddolwyr a'r gymuned wyddonol
- tudalen sy'n cysylltu â llyfr coffa ar-lein am y rhai a fu farw yn ystod y pandemig.
- tudalen adnoddau addysgol â chanllawiau wedi'u teilwra ar gyfer pob grŵp oedran (gweler Argymhelliad Pedwar isod).

**Argymhelliad Tri:** Dylid sefydlu gwefan coffáu Covid gan Ymddiriedolaeth Goffáu Covid er mwyn hyrwyddo'r diwrnod o fyfyrdod, rhoi manylion cofebion lleol a gofodau coffaol, a chysylltu â chasgliadau yn ymwneud â Covid mewn amgueddfeydd gan gynnwys casgliadau o hanesion llafar gan amrywiaeth eang o grwpiau gan gynnwys teuluoedd mewn profedigaeth, gweithwyr rheng flaen, gwirfoddolwyr, y gymuned wyddonol a phobl ifanc.

## Addysg

Roedd pwysigrwydd addysgu cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ar brofiadau amrywiol y pandemig yn aml yn cael ei amlygu i ni drwy gydol ein hymgysylltiadau. Roedd nifer yn teimlo y dylai profiadau o'r fath gael eu dysgu mewn ysgolion a cholegau ledled y DU. Gwelsom fod hyn wedi'i gefnogi gan ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus, gyda thua thri chwarter o'r bobl yn datgan mai'r ffordd orau o addysgu cenedlaethau'r dyfodol am COVID-19 a heintiau pandemig eraill fyddai drwy'r system ysgolion. Fe wnaethom hefyd gynnal digwyddiad gyda phobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed i sicrhau bod eu lleisiau a'u syniadau'n cael eu clywed.

- *Diwrnod o fyfyrdod ac wythnos thematig:* Cymeradwyodd y bobl ifanc y clywsom ganddynt y syniad o ddiwrnod o fyfyrio. Fe wnaethon nhw hefyd awgrymu y gallai llawer o ddigwyddiadau addysgiadol, cymunedol a lles gael eu cynnal yn ystod yr wythnos cyn y diwrnod o fyfyrio, o ystyried effaith y pandemig, yn enwedig ar eu haddysg a'u hiechyd meddwl. Byddai hyn hefyd yn caniatáu iddyn nhw fyfyrio'n llawn ar brofiadau o'r fath.
- *Hanes a gwyddoniaeth:* Canfuom gefnogaeth eang i'r syniad o ddysgu am y pandemig yn ddigwyddiad hanesyddol, gan roi manylion y digwyddiadau, gan gynnwys maint y golled a'r aberthau a wnaed. Yn yr un modd, roedd cefnogaeth i addysgu am y rôl bwysig a chwaraeodd gwyddoniaeth wrth frwydro yn erbyn y feirws gan gynnwys sut y gall pandemigau godi, pwysigrwydd brechlynnau ac astudio epidemioleg. Clywsom hefyd gan y rhai yn y sector cymunedol ac addysg wyddonol a roddodd enghreifftiau o ddeunyddiau addysgol gwerthfawr a ddatblygwyd yn ystod y pandemig i gefnogi dysgu mewn meysydd megis achosion o glefydau heintus a gwydnwch personol a chenedlaethol.
- *Llysgenhadon STEM:* Awgrymodd llawer yn y gymuned wyddonol, yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd y dylid defnyddio'r gwerthfawrogiad cyffredin o'r rôl bwysig a chwaraewyd gan wyddoniaeth i ysbrydoli pobl ifanc i ymwneud ymhellach â phynciau megis gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg a'r gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau. Roedd y gymuned wyddonol y buom yn siarad â hi yn nodi pwysigrwydd rhaglen Llysgenhadon STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg), gyda chynrychiolwyr o gymuned wyddonol eang yn ymweld ag ysgolion i siarad am eu profiadau a'u disgyblaethau.
- *Gwirfoddoli ac ysbryd cymunedol:* Throughout our engagements, many were quick to recognise the volunteering spirit Trwy gydol ein hymgysylltiadau, roedd llawer yn barod i gydnabod yr ysbryd gwirfoddoli a welwyd yn ystod y pandemig. Roedd ymdeimlad bod pobl wedi gwneud eu gorau glas i helpu ei gilydd er gwaethaf yr holl gyfyngiadau oedd mewn grym. Roedd anogaeth i'r gwerthoedd hyn barhau i gael eu hadeiladu i ethos ysgolion, gyda hyn yn helpu i gynnal newid diwylliannol lle gwelir gweithredoedd o wasanaeth cymunedol yn rhan naturiol o ddinasyddiaeth.
- *Gwytnwch ehangach:* Roedd llawer o'r rhai y buom yn siarad â nhw hefyd yn teimlo y dylem ddysgu gwersi o'r pandemig hwn i gefnogi parodrwydd ar gyfer pandemigau ac argyfyngau yn y dyfodol. Gwelwyd y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig yn rhoi platfform cryf i ddysgu pwysigrwydd atal, lliniaru a rheoli risgiau a achosir gan beryglon naturiol, fel heintiau'r pandemig, yn ogystal â bygythiadau dynol.

Cytunodd y Comisiwn â phwysigrwydd addysgu am y pandemig yn ddigwyddiad hanesyddol, yn ogystal â'r wyddoniaeth sy'n gysylltiedig â phandemigau i gefnogi gwytnwch yn erbyn risgiau'r dyfodol. Wrth ffurfio'r argymhelliad hwn, roedd y Comisiwn am sicrhau y byddai'n parhau ac yn edrych ymlaen, fel y gall cenedlaethau'r dyfodol ddysgu am gyfnod allweddol lle'r effeithiwyd ar bawb, ac y parheir i effeithio ar lawer.

Yn y tymor byr, roeddem yn cydnabod bod y sector addysg yn dal i wella o'r amharu ar addysg pobl ifanc yn ystod y pandemig. Roeddem hefyd yn cydnabod y byddai angen ystyried cynorthwyo iechyd meddwl pobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n profi profedigaeth oherwydd Covid, gan eu bod yn cymryd rhan mewn dysgu o'r fath.

I gynorthwyo dysgu o'r fath rydym yn argymell bod Ymddiriedolaeth Coffáu Covid (gweler Argymhelliad Pump isod) yn datblygu adnoddau sy'n briodol i'w hoedran i ysgolion a cholegau allu addysgu am y pandemig yn y tymor byr a'r tymor hir. Dylid trefnu bod y deunyddiau hyn ar gael i grwpiau ieuenctid a chymuned, gan gydnabod y gwahanol leoedd mae pobl ifanc yn mynd iddynt i ddysgu.

**Argymhelliad Pedwar:** Dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon annog ysgolion a cholegau i addysgu am bandemig COVID-19, gan gynnwys profiadau pobl, rôl gwyddoniaeth a phwysigrwydd cymdeithas wydn. Dylai'r Ymddiriedolaeth Coffáu Covid ddatblygu a diweddaru deunyddiau addysgu i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir.

## Ymddiriedolaeth Coffáu Covid

Wrth wneud yr argymhellion uchod, teimlai'r Comisiwn mai'r peth doeth fyddai sefydlu Ymddiriedolaeth Elusennol fyddai'n cymryd perchnogaeth ac yn rheoli gweithgareddau coffáu Covid. Ymhlith y sefydliadau eraill sy'n cydlynu'r amrediad o ddigwyddiadau rydym yn rhagweld y byddai'r Ymddiriedolaeth Coffáu Covid yn eu cydlynu mae elusennau megis y Lleng Brydeinig Frenhinol, yr Holocaust Educational Trust, a'r National Aids Trust i enwi ychydig.  Felly, cytunodd y Comisiwn fod yr argymhelliad hwn yn allweddol er mwyn sicrhau bod llawer o'r hyn yr ydym wedi'i nodi yn llwyddiannus yn yr adroddiad hwn.

Yn benodol, rhagwelir y byddai'r Ymddiriedolaeth yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau canlynol o leiaf:

- Rhedeg, trefnu a rhannu gwybodaeth ar y diwrnod o fyfyrio;
- Perchnogi a rheoli symbol Covid;
- Sefydlu a rheoli gwefan Coffáu Covid;
- Creu adnoddau addysgol; a
- Hyrwyddo gwaith amgueddfeydd gyda mentrau a sefydliadau cysylltiedig â Covid sy'n ceisio dogfennu digwyddiadau'r pandemig gan gynnwys y rhai sy'n casglu hanesion llafar.

Cytunodd y Comisiwn y dylai'r Ymddiriedolaeth gael dibenion clir, ei set ei hun o ymddiriedolwyr a staff a chyllideb weithredu flynyddol. O ystyried y bydd nifer o'r argymhellion yn perthyn i gylch gwaith yr Ymddiriedolaeth Coffáu Covid , mae'r Comisiwn o'r farn y dylid sefydlu'r Ymddiriedolaeth cyn gynted ag y bo modd. Po gyntaf y bydd yn cael ei sefydlu ac yn dechrau arni, y mwyaf tebygol ydyw y bydd yn gallu cynnal diwrnod o fyfyrio yn llwyddiannus ym mis Mawrth 2024 gyda'r symbol newydd wedi'i integreiddio'n llawn yn rhan o'r diwrnod. Cytunodd y Comisiwn hefyd y dylid adolygu'r Ymddiriedolaeth a'i chyfrifoldebau cysylltiedig ar ôl cyfnod o 10 mlynedd er mwyn sicrhau bod ei weithgareddau'n dal i fod yn berthnasol .

**Argymhelliad Pump:** Dylai Llywodraeth y DU, gan weithio gyda Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, sefydlu ymddiriedolaeth coffáu Covid i gydlynu'r diwrnod o fyfyrio a gweithgareddau coffáu Covid eraill.

## 2.4. Coffáu a Chofebion

Mae llawer o fentrau coffáu Covid eisoes ar y gweill ledled y Deyrnas Unedig.  Mae llawer eisoes wedi'u hadeiladu ac yn hygyrch i'r cyhoedd, ac eraill ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn yn credu y dylai'r mentrau presennol hyn gael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi am y budd y byddant yn ei roi i deuluoedd sydd wedi cael profedigaeth yn ogystal â'r rhai yr effeithiodd y pandemig arnynt gan chwilio am le i fyfyio'n dawel ynddo. Ceir manylion am rai mentrau nodedig isod.

### Mentrau coffáu a chofebion Covid presennol

Mae llawer o fentrau coffáu Covid eisoes ar y gweill ledled y Deyrnas Unedig. Mae llawer eisoes wedi'u hadeiladu ac yn hygyrch i'r cyhoedd, ac eraill ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn yn credu y dylai'r mentrau presennol hyn gael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi am y budd y byddant yn ei roi i deuluoedd sydd wedi cael profedigaeth yn ogystal â'r rhai yr effeithiodd y pandemig arnynt gan chwilio am le i fyfyrio'n dawel ynddo. Ceir manylion am rai mentrau nodedig isod:

- *Wal Goffa Covid Genedlaethol:* Teimlai llawer o'r teuluoedd mewn profedigaeth y buom yn siarad â nhw, fod yn rhaid cael cofeb amlwg er mwyn cadw'r pandemig yn ymwybyddiaeth y cyhoedd wrth i amser symud ymlaen.  Ym mron pob cyfarfod a digwyddiad a drefnwyd gennym, clywsom am bwysigrwydd cadw''r Wal Goffa Covid Genedlaethol. Yr ymadrodd a ddefnyddiwyd gan amlaf oedd iddi gael ei gwneud gan y rhai a gafodd brofedigaeth ar gyfer y rhai a gafodd brofedigaeth. Datblygodd y gofeb yn organig ac mae wedi dod yn symbolaidd iawn i lawer o deuluoedd a gafodd brofedigaeth. Gwirfoddolwyr sy'n cynnal murlun calonnau coch a bydd angen trafodaethau rhwng perchennog presennol y wal, sef Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Guy's a St Thomas, a phartïon perthnasol eraill ynglŷn â chynnal a chadw'r wal ei hun yn ogystal â'r gofeb yn y dyfodol. O ystyried yr ystyr sydd gan y wal hon i lawer o deuluoedd a gafodd brofedigaeth, rydym yn argymell cefnogi ymdrechion i gadw'r wal goffall.

- *Cofia Fi Sant Paul:* Mae cofeb Cofia Fi yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul yn bortico mewnol newydd sydd wedi'i neilltuo er cof y rhai a fu farw yn ystod pandemig COVID-19. Mae llyfr coffa ar-lein yn cyd-fynd â'r gofeb gorfforol hon. Mae'r gofeb a'r llyfr cofio yn agored i bobl o bob ffydd a dim ffydd.
- *Y gofeb fyw 25 erw:* Mae hwn yn brosiect pwysig o dan arweiniad yr Arboretum Coffa Cenedlaethol (ACC) a'r Cwmni Coedwigoedd Cenedlaethol sy'n ceisio creu cofeb fyw newydd a fydd yn cydnabod gwasanaeth ac aberth, ac yn cofio pob unigolyn a fu farw o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r ACC yn bwriadu creu tirwedd fyw ysbrydoledig gan gynnwys llawer o nodweddion megis llennyrch myfyriol, mannau ar gyfer ymgasglu a chwarae, lle cynhwysol ar gyfer myfyrio ac addoli a llyn eang. Mae cynlluniau hefyd ar gyfer rhodfa o ddŵr i redeg drwy ganol y coetir drwy gyfres o nodweddion dŵr wedi'u haenu o ran eu hystyr.
- *Coetiroedd coffa yng Nghymru:* Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd tri choetir coffa yn cael eu creu i gofio'r holl rai a fu farw yn ystod y pandemig. Mae tri safle wedi eu dynodi ar gyfer y gwaith hwn. Maent yn cynnwys safle sy'n eiddo i Gyngor Caerffili a'i addasu ochr yn ochr â safleoedd yn Ystâd Erddig Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn Wrecsam a safle a nodwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn Brownhill yn Nyffryn Tywi yn Sir Gaerfyrddin. Bwriad y coedlannau coffa yw bod yn symbol o gadernid Cymru yn ystod y pandemig, ac yn un o adfywio ac adnewyddu wrth i'r coetiroedd newydd dyfu. Y gobaith yw y byddan nhw'n fannau o fyfyrdod tawel i deuluoedd a ffrindiau gofio am anwyliaid coll. Byddan nhw hefyd yn lleoliadau lle bydd y cyhoedd yn gallu myfyrio am y pandemig a'r effaith y mae wedi'i chael ar ein bywydau ni i gyd.
- *Rhaglen Remembering Together yn yr Alban:* Remembering Together is Scotland's Covid Community Memorial Programme. The prograRemembering Together yw Rhaglen Coffa Cymunedol Covid yr Alban. Ariennir y rhaglen gan Lywodraeth yr Alban ac fe'i rheolir gan Greenspace Scotland ac mae'n gweithio gyda phartneriaid lleol i gomisiynu artistiaid ym mhob un o'r 32 ardal awdurdod lleol i gyd-greu gweithredoedd cyfunol o fyfyrdod, cofio, gobaith ac iachau gyda chymunedau ar draws yr Alban Gobaith y rhaglen hon yw rhoi cyfle i bobl oedi, myfyrio ac ystyried popeth sydd wedi digwydd yn eu cymunedau.
- *Taith goffa 'I remember' ym Mharc Gwledig Pollok Glasgow yn yr Alban:* Mae'r daith goffa hon yn cynnwys deugain o weithiau celf derw sydd ger neu'n agos at lwybrau neu ffyrdd â wyneb caled.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod y rôl bwysig a gwerthfawr iawn y mae'r cofebion hyn a llawer o rai eraill ledled y DU yn eu chwarae wrth ddarparu man lle gall pobl ymgynnull i fyfyrio ar effaith y pandemig a chofio anwyliaid a fu farw o ganlyniad. Gallai rhai o'r mentrau hynny hefyd helpu i gyflawni Argymhelliad Saith.

**Argymhelliad Chwech:** Mae'r Comisiwn yn argymell y dylid cefnogi'r cynlluniau presennol i gadw Wal Goffa Genedlaethol Covid ac y dylid gwerthfawrogi a chydnabod mentrau presennol eraill am y rôl bwysig y maent yn ei chwarae wrth gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth a'r rhai sy'n chwilio am le tawel i fyfyrio.

## Cofebion newydd ledled y DU

Fel y soniwyd eisoes, trafodwyd pwnc y cofebion yn helaeth ymysg y grwpiau y gwnaethom gyfarfod â nhw ar draws y DU. Cytunodd y Comisiwn y bydd cofebion yn rhan bwysig o'r broses alaru i lawer o aelodau'r teulu a gafodd brofedigaeth. Er bod llawer o safbwyntiau wedi'u rhannu ar syniadau penodol, gwelsom sawl thema gyson a oedd yn caniatáu inni ddod i gasgliad ar yr argymhelliad sy'n debygol o adlewyrchu'r consensws mwyaf.

- *Cofebion lluosog:* Roedd yn well gan y mwyafrif mawr o'r bobl yr oeddem yn ymwneud â nhw ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon y syniad o gofeb fwy lleol a fyddai'n hawdd ei chyrraedd o'i chymharu ag un gofeb fawr. Gwelsom duedd debyg yng nghanlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus, lle mynegodd tua dau o bob pump o bobl gefnogaeth i gofeb ranbarthol. Roedd pobl hefyd yn aml yn mynegi rhywfaint o ansicrwydd a ddylai'r Comisiwn argymell opsiynau coffáu gor-seremonïol a chostus o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol.
- *Man gwyrdd tawel ar gyfer myfyrio:* Roedd y rhai y buom yn siarad â nhw yn teimlo y dylai cofebion Covid fod yn fannau tawel wedi'u gosod mewn man gwyrdd yn ddelfrydol megis coetir, parc neu ardd lle gall pobl ymgynnull. Cafodd hyn ei adlewyrchu yng nghanfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus gyda chofebion gwyrdd yn codi fel y dewis cyntaf yn hytrach na chofebion ffisegol ac ar-lein. Roedd pobl y buom yn siarad â nhw hefyd yn awyddus i'r cofebion adlewyrchu'r hyn yr oedd y rhanbarth hwnnw wedi'i brofi pan oedd y pandemig yn ei anterth.

Cytunodd y Comisiwn y dylid sefydlu tua 10 cofeb newydd ar draws y DU, a phob un wedi'u gosod mewn man gwyrdd cyhoeddus hygyrch megis parc, gardd neu goetir. Roeddem yn ymwybodol o'r hinsawdd economaidd a blaenoriaethau gwariant cyhoeddus eraill ond o ystyried yr effaith a gafodd COVID-19 ar ein cymdeithas, fe wnaethom gytuno y byddai mwy o gefnogaeth i raglen sy'n cynnwys nifer o gofebion newydd o faint cymedrol wedi'u lleoli ar draws y DU gyfan Mae rhaglen o'r fath hefyd yn debygol o ategu'r nifer o fentrau sydd eisoes ar y gweill megis y Wal Goffa Covid Genedlaethol, y gofeb fyw 25 erw arfaethedig yn yr Arboretum Coffa Cenedlaethol, y tri choetir yng Nghymru a'r daith gerdded goffa 'I remember' ym Mharc Gwledig Pollok Glasgow yn yr Alban. Cytunwyd y dylai'r cofebion hyn gynnwys cerflun newydd a fyddai'n gwella'r amgylchedd gwyrdd o'i gwmpas ac y dylai fod thema gyffredin ar draws pob un o'r 10 cofeb. O leiaf, y thema gyffredin fyddai plac a'r symbol a grybwyllir yn Argymhelliad Dau uchod. Cytunwyd hefyd y byddai'n ddelfrydol i'r cerfluniau newydd gael eu dylunio gan gerflunwyr lleol gan y gallent ddal ac adlewyrchu profiadau'r ardal orau.

Bydd angen dylunio a chodi'r cofebion a cherfluniau newydd ar sawl safle ar draws y DU. Bydd angen bod yn ofalus i ddewis lleoliadau sy'n ategu cofebion presennol. Nododd y Comisiwn hefyd fod anghydraddoldebau cymdeithasol ymhlith cymunedau ledled y DU i'w teimlo'n arbennig yn ystod y pandemig, ac y dylai'r mannau lle yr oedd y rhai yr effeithiwyd arnynt yn anghymesur yn byw hefyd gael eu hystyried wrth ddewis lleoliad y cofebion newydd hyn.

Dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth Yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon weithio gyda'i gilydd er mwyn darparu cyllid ar gyfer y rhaglen.

**Argymhelliad Saith:** Mae'r Comisiwn yn argymell nodi tua 10 o fannau gwyrdd ar draws y DU a sefydlu cofeb newydd ym mhob lleoliad yn fan myfyrio tawel lle gall pobl ymgynnull.

## Cynllun ariannu cofebion lleol

Roedd llawer o'r rhai y buom yn siarad â nhw yn gefnogol i'r cofebion y cyfeirir atynt yn argymhelliad saith. Fodd bynnag, gwelsom fod pobl hefyd yn teimlo y dylai lle tawel ar gyfer myfyrio a choffáu fod yn hygyrch ar lefel leol iawn. Roedd llawer o bobl am allu cael lle o'r fath yn rheolaidd a heb orfod teithio'n bell. Mae rhai awdurdodau lleol ac mewn rhai achosion gwirfoddolwyr eisoes wedi ariannu prosiectau lleol. Daeth llawer o'r prosiectau lleol hyn i'n sylw drwy'r ffurflen arolwg lleol a lansiwyd gennym ar wefan y Comisiwn yn fuan ar ôl i'r Comisiwn gael ei sefydlu. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i gwblhau'r ffurflen i'n hysbysu o'r mentrau sy'n digwydd yn eu hardal leol. Rydym yn cydnabod y manteision y mae prosiectau o'r fath yn eu cynnig i'r rhai sydd wedi cael profedigaeth.

- *Prosiect cymunedol lleol:* Canfuom fod llawer o'r rhai y buom yn siarad â nhw hefyd wedi mynegi awydd am ymgysylltu ar lefel yr awdurdod lleol wrth ddylunio safleoedd coffa i sicrhau unwaith eto bod y cofebion yn adlewyrchu profiad y gymuned. Adlewyrchwyd yr alwad hon am ymgysylltu â'r gymuned drwy gydol y digwyddiadau a gynhaliwyd gennym ledled y DU.
- *Man gwyrdd o fyfyrdod i gymunedau:* Mynegwyd llawer iawn o gefnogaeth hefyd ar gyfer mannau myfyriol lleol â gwyrddni a meinciau lle gallai pobl fyfyrio ar eu pennau eu hunain neu eistedd gydag eraill. Roedd ymdeimlad clir y byddai pobl yn hoffi i safleoedd a mentrau coffa o'r fath ddod â chymunedau ynghyd, meithrin ysbryd a rennir ac adlewyrchu llawer o'r ysbryd cymunedol hwnnw a brofodd llawer ohonom trwy gydol y cyfnodau clo a'r pandemig.

Cytunodd y Comisiwn y dylai cynllun ariannu lleol fod ar gael i awdurdodau lleol gyflwyno cais amdano, a'i ddefnyddio i sefydlu a chynnal lle i goffáu Covid mewn parciau neu erddi presennol ledled y DU. Er mwyn i gynifer o gymunedau â phosibl gael budd o'r cynllun hwn, byddai disgwyl i awdurdodau lleol sy'n gwneud cais am arian fuddsoddi rhywfaint o'u cyllid eu hunain yn eu prosiect lleol. Dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth Yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon weithio gyda'i gilydd er mwyn darparu cyllid ar gyfer y cynllun.

**Argymhelliad Wyth:** Dylid sefydlu cynllun ariannu ar gyfer awdurdodau lleol ar draws y DU i sefydlu mannau coffa lleol mewn parciau presennol neu fannau gwyrdd yn eu hardaloedd.

## 2.5. Cydnabyddiaeth

Fel y nodwyd eisoes, gosodwyd yr her o argymell ffyrdd y gallai'r wlad gofio'r anwyliaid a gollwyd, ond hefyd anrhydeddu'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol hynny a weithiodd i achub bywydau a dewrder gweithwyr rheng flaen sydd wedi cadw ein gwlad i fynd, a dathlu athrylith y rhai a ddysgodd yn gyflym y ffyrdd gorau o drin COVID-19, a gynhaliodd y treialon hanfodol bwysig a nododd driniaethau a achubodd fywydau, ac a greodd y brechlynnau.

Fe wnaethon ni drafod a ddylid rhoi cydnabyddiaeth unigol drwy fedalau, bathodynnau neu wobrau, ac a ddylid cydnabod grwpiau penodol am gyfraniadau a wnaed yn ystod y pandemig. Rydym yn cydnabod hefyd bod rhywfaint o gefnogaeth i' roi medalau i staff y GIG a'r fyddin yn benodol. Fodd bynnag, wrth drafod mater cydnabyddiaeth, daeth yn amlwg yn gyflym i ni fod creu rhestr ddiffiniol o unigolion neu grwpiau penodol sy'n haeddu cydnabyddiaeth nid yn unig yn heriol ond yn debygol o anwybyddu grwpiau ac unigolion nad ydynt yn llai haeddiannol.  Nodwyd hefyd fod y bobl yr oeddem yn ymgysylltu â nhw yn aml yn teimlo bod rhywfaint o gydnabyddiaeth yn ddyledus i bawb gan fod llawer o bobl mewn llawer o wahanol fathau o waith nad oeddent yn gallu aros o fewn diogelwch eu cartrefi ond bu rhaid iddyn nhw fynd allan i gadw gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i fynd o amgylch y DU gyfan. Mae'n ymddangos bod y farn hon wedi'i hadlewyrchu yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, gyda hanner y bobl yn cytuno bod pawb yn haeddu cydnabyddiaeth yn hytrach na grwpiau neu unigolion penodol.

Er bod pobl yn teimlo bod pawb yn haeddu cydnabyddiaeth, mae'r Comisiwn yn cydnabod profiadau gwahanol ac anhygoel o heriol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a weithiodd yn galed i achub bywydau a hynny o bosibl ar gost sylweddol i'w hiechyd a'u lles eu hunain. Gwnaeth COVID-19 alwadau eithafol ar staff iechyd a gofal cymdeithasol ac rydym yn cefnogi'r gydnabyddiaeth a ddyfarnwyd i Wasanaethau Iechyd Cenedlaethol y DU trwy Groes y Brenin Siôr a gyflwynwyd gan y Frenhines Elizabeth II ym mis Gorffennaf 2022. Dyfarnwyd Croes y Brenin Siôr i gydnabod 73 mlynedd o wasanaeth penodedig, gan gynnwys am yr ymdrechion eithriadol a'r sgil a ddangoswyd gan weithwyr y GIG ledled y DU wrth frwydro yn erbyn pandemig COVID-19.

Roedd pobl ledled y DU hefyd wedi chwarae rhan bwysig yn yr ymateb i'r pandemig drwy wirfoddoli a gweithredu cymdeithasol. Cymerodd miloedd ran mewn rhaglenni yn Ymatebwyr Gwirfoddolwyr y GIG a Hyrwyddwyr Cymunedol, ac roeddent yn ganolog i gyflwyno'r broses o gyflwyno'r brechlyn. Cymerodd eraill ran mewn treialon brechlyn, defnyddiasant eu sgiliau penodol i gefnogi elusennau a grwpiau cymunedol, ac roedd miliynau o bobl yn cefnogi eu cymdogion. Mae'r Comisiwn yn croesawu mentrau fel y Cynllun Gweithredu Gwirfoddoli yn Yr Alban, y Weledigaeth ar gyfer Gwirfoddoli yn Lloegr, a datblygiad strategol tebyg yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r mentrau hyn yn adeiladu ar ddiwylliant cryf o wirfoddoli a gweithredu cymdeithasol yn y DU. Cytunodd y Comisiwn y dylid cynnal a datblygu strategaethau gwirfoddoli hirdymor ar draws y DU, er mwyn sicrhau bod  yr ysbryd gwirfoddoli oedd yn amlwg drwy gydol y pandemig yn parhau i gael ei gefnogi.

## Hanesion llafar ac amgueddfeydd

Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gwaith mae'r amgueddfeydd yn ei wneud drwy goladu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â Covid ac mae ychwanegu hyn at eu casgliadau o bwys mawr. Bydd casgliadau o'r fath yn chwarae rhan bwysig wrth gofio'r colledion a'r aberth ond hefyd wrth gydnabod yr ymdrechion a'r cyfraniadau a wneir gan gynifer drwy gydol y pandemig.

Barn gyffredinol oedd bod amgueddfeydd a llyfrgelloedd yn ofod pwysig ar gyfer addysg gyhoeddus ar y pandemig a'r teimlad oedd y gallai'r rhain gael eu defnyddio i rannu'r ystod amrywiol o brofiadau a welwyd pan oedd y pandemig yn ei anterth mewn ffordd hynod ddiddorol. Roedd llawer o'r rhai y buom yn siarad â nhw yn teimlo y byddai cofnodi hanesion llafar yn ffordd rymus o wneud hyn.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod y rôl bwysig sy'n cofnodi hanesion llafar mewn dramâu penodol. Oni bai ein bod yn casglu ac yn cadw atgofion pobl, gellir colli'r rhain.

- *Cofio a chydnabod amrywiaeth y profiadau:* Roedd cytundeb eang ymhlith pawb y buom yn siarad â nhaw â'r ffaith fod cofnodi tystiolaethau o amrediad eang o grwpiau gan gynnwys teuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth, gweithwyr rheng flaen, gwyddonwyr, gwirfoddolwyr a phobl ifanc yn ffordd effeithiol iawn o gofnodi'r amrywiaeth o brofiadau yr aeth pobl drwyddynt yn ystod y cyfnod hwn yn ein hanes.

- *Cofio enwau ac nid rhifau:* Yn bwysig, gwelsom fod teuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth yn teimlo'n gryf y dylid cofio enwau yn hytrach na ffeithiau a ffigyrau. Byddai hanesion llafar yn ffordd addas o gofio'r hyn yr aeth pawb drwyddo yn ystod y cyfnod hwn o'n hanes ac i sicrhau bod enwau a straeon yn cael eu cofio yn hytrach na niferoedd ac ystadegau.

- *Archif ac arddangosfeydd ar-lein:* Gellid rhannu'r straeon hyn yn ddigidol trwy wefan a gallent hefyd ffurfio rhannau o arddangosfeydd sy'n gysylltiedig â Covid mewn amgueddfeydd ledled y DU. Mae'r Comisiwn yn credu mai'r Ymddiriedolaeth Coffáu Covid fyddai'r sefydliad delfrydol i goladu rhestr o'r prosiectau hanes llafar sy'n gysylltiedig â Covid sydd eisoes ar y gweill a darparu dolenni atynt ar ei gwefan. Gallai'r Ymddiriedolaeth hefyd lansio ei phrosiect ei hun i gofnodi profiadau'r grwpiau hynny y gallem fod eisiau clywed ganddyn nhw ac nad yw eu profiadau wedi'u cofnodi ar brosiectau eraill.

- *Addysg:* Gwelsom hefyd fod llawer o'r bobl yr oeddem yn ymgysylltu â nhw yn cytuno y gellid defnyddio hanesion llafar fel arf addysgol i ddangos maint effaith Covid a throsglwyddo straeon personol, gan dynnu sylw at bwysigrwydd yr holl gyfraniadau a wnaed.

Cytunodd y Comisiwn fod gan bawb, beth bynnag y bo'u cefndir, stori unigryw i'w hadrodd. Mae hanes llafar yn caniatáu i bobl na fyddai eu lleisiau fel arall yn cael eu clywed rannu eu profiadau. Bydd cofnodi tystiolaethau o amrediad mor eang o grwpiau â phosibl yn rhoi cydnabyddiaeth i'r holl unigolion a grwpiau hynny a wnaeth aberthu a chadw gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i fynd o amgylch y DU gyfan. Bydd cofnodi'r tystiolaethau hyn hefyd yn rhoi cyfle i deuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth rannu eu straeon a sicrhau bod eu hanwyliaid yn cael eu cofio fel enw ac nid rhif. Teimlwn fod hwn yn ddarn pwysig o waith a allai ddod â heddwch i lawer o aelodau teuluol sydd wedi cael profedigaeth, i anrhydeddu'r aberth a'r ymdrechion a wnaed gan lawer o grwpiau ac unigolion yn ystod y pandemig, a gwasanaethu'n gofnod pwysig o'r cyfnod hwn o'n hanes.

**Argymhelliad Naw:** Dylai hanesion llafar o amrediad eang o grwpiau gan gynnwys teuluoedd mewn profedigaeth, gweithwyr rheng flaen, gwirfoddolwyr, y gymuned wyddonol a phobl ifanc gael eu casglu i gydnabod yr holl aberthau a'r ymdrechion a wnaed yn ystod y pandemig, ac i wasanaethu fel cofnod hanesyddol o'r cyfnod hwn o'n hamser ac yn arf addysgol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Gwyddoniaeth y DU

Nododd y Comisiwn fod gwaith pwysig y gymuned ymchwil o ran helpu i reoli'r pandemig yn cael ei amlygu gan lawer o'r bobl y gwnaethom ymgysylltu â nhw. Cynhaliom ddigwyddiad gydag ymchwilwyr o amrywiaeth o ddisgyblaethau a chanfod bod barn ar gydnabod datblygiadau gwyddoniaeth sy'n canolbwyntio ar gefnogi ymchwilwyr i helpu i feithrin gwydnwch yn erbyn peryglon naturiol, digwyddiadau naturiol eithafol neu sefyllfaoedd a allai achosi neu fygwth niwed difrifol i les dynol neu'r amgylchedd.

- *Dulliau amlddisgyblaethol:* Wrth drafod sut y dylid cydnabod Gwyddoniaeth y DU, fe wnaeth y gymuned wyddonol roi sêl bendith eang i'r cydweithio rhwng gwahanol ddisgyblaethau wrth gefnogi'r ymateb i'r pandemig. Roedden nhw'n annog mwy o bartneriaeth ledled y DU rhwng gwneud ymchwil a llunio polisïau mewn gwyddoniaeth (gan gynnwys y gwyddorau economaidd a chymdeithasol), technoleg, peirianneg, y celfyddydau a mathemateg (STEAM), i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau yn y llywodraeth.
- *Sganio'r Gorwel a Data :* Roedd y gymuned wyddonol hefyd wedi canmol yr ansawdd a pha mor gyflym y cafodd data eu casglu a'u rhannu yn ystod y pandemig. Nodwyd y rhaglen Astudiaethau Craidd Cenedlaethol a sefydlwyd ar ddechrau'r pandemig a nododd nifer o feysydd lle roedd angen i'r DU gynyddu ei hymdrech ymchwil a chynyddu ei seilwaith i sicrhau bod modd ateb cwestiynau beirniadol yn gyflym. Roedd ymdeimlad cyffredin y gellid gwneud rhagor i gryfhau'r gwaith o gynllunio senarios a symud data ar gyfer meysydd risg presennol ac yn y dyfodol.

- *Cymrodoriaethau ymchwil:* Yn ein trafodaethau â'r gymuned wyddonol, gwelsom fod consensws cyffredinol ar gyfer rhaglen gymrodoriaeth ôl-raddedig ledled y DU ar gyfer ymchwilwyr cynnar a chanol gyrfa i weithio'n agos gyda llunwyr polisi i gefnogi parodrwydd ar gyfer peryglon naturiol, gan gynnwys y rhai ym meysydd clefyd dynol ac anifeiliaid. Dylai'r gymrodoriaeth fod yn gynhwysol o ddisgyblaethau STEAM ac wedi'i threfnu'n rhaglen sy'n cysylltu cymrodyr ac yn darparu gwerth ychwanegol yn ychwanegol at eu rhaglenni ymchwil unigol a chydweithredol. Dylai alluogi'r ymchwilydd i ganolbwyntio ar gwestiwn polisi penodol, yn ogystal â chymryd rhan mewn prosiectau sy'n gysylltiedig â sganio gorwelion a symud data wrth adnabod a thrin peryglon naturiol. Byddai hyn i gyd yn gwasanaethu i gefnogi'r berthynas rhwng ymchwil a llunio polisïau.

**Argymhelliad Deg:** The UK Government, working with the Scottish Government, Welsh Government Dylai Llywodraeth y DU, gan weithio gyda Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, gefnogi rhaglen gymrodoriaethau ôl-ddoethurol uchel ei bri a fydd yn galluogi ymchwilwyr ar ddechrau ac ar ganol eu gyrfa i weithio'n agos gyda llunwyr polisi i gefnogi parodrwydd ar gyfer risgiau a achosir gan beryglon naturiol.

# Atodiad

## Atodiad A - Cylch Gorchwyl

### Diben

Mae pandemig COVID-19 wedi bod yn ddigwyddiad na fu ei debyg o fewn cof. Mae wedi effeithio ar bob agwedd o'n bywydau a phob cwr o'n Teyrnas Unedig. Mae dyletswydd ddifrifol ar ein Teyrnas Unedig gyfan i ddod at ei gilydd a nodi'r digwyddiad pwysig hwn a newidiodd fywydau. Bydd Comisiwn y DU ar Goffáu Covid yn ymdrech genedlaethol, uwchlaw gwleidyddiaeth bleidiol ac yn wahanol i unrhyw ymchwiliad cyhoeddus. Bydd yn argymell ffyrdd y gall y wlad gofio'r anwyliaid a fu farw, anrhydeddu arwriaeth y rhai sydd wedi achub bywydau a dewrder gweithwyr rheng flaen sydd wedi cadw ein gwlad i fynd, dathlu athrylith y rhai a greodd y brechlynnau, a choffáu'r gweithredoedd bychain o garedigrwydd ac aberth dyddiol miliynau a arhosodd gartref.

Bydd y Comisiwn yn gweithio ar draws ein Teyrnas Unedig ac ynghyd â'r Gweinyddiaethau Datganoledig i greu consenswS cenedlaethol ynghylch mesurau y gellid eu rhoi ar waith i adrodd holl stori'r cyfnod hwn yn ein hanes.

Bydd yn adrodd i'r Prif Weinidog erbyn mis Mawrth 2023 fan bellaf.

### Amcanion

Wrth gyflawni ei gylch gwaith, dylai'r Comisiwn:

- Ymgysylltu'n empathig â theuluoedd mewn profedigaeth ac archwilio'r ystod o fentrau coffa sy'n dod i'r amlwg ledled y DU i ystyried sut y dylid cofio'r rhai sydd wedi colli eu bywydau yn ein cymunedau ac ar lefel genedlaethol.
- Ystyried sut y dylid cofio a choffáu stori ehangach y cyfnod hwn yn ein hanes, gan gynnwys:
  - Pa goffáu ychwanegol y dylai fod ar wasanaeth gweithwyr hanfodol;
  - Sut rydyn ni'n cydnabod profiad y rhai y cafodd COVID-19 effaith ddifrifol arnynt;
  - Pa fentrau a allai gynnal gwirfoddoli, gweithredoedd o garedigrwydd a dyngarwch;
  - Sut y dylid dathlu datblygiadau gwyddoniaeth Prydain yn y cyfnod hwn;
  - Pa fentrau a allai fanteisio ar y ffordd y mae technoleg wedi'i defnyddio i ddod â phobl at ei gilydd;
  - Sut y dylid dathlu'r ysbryd cenedlaethol yr oedd pawb yn chwarae eu rhan drwyddo.
- Dysgu o sut mae gwledydd eraill ar draws y byd – gan gynnwys aelodau'r Gymanwlad - yn ceisio cofio'r pandemig.

- Darparu cyfleoedd penodol i bartïon sydd â diddordeb ac aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys teuluoedd mewn profedigaeth, i gynnig tystiolaeth ar fentrau coffa presennol ac awgrymiadau ar gynlluniau coffáu ychwanegol.
- Llunio sgwrs genedlaethol ehangach a chreu perchnogaeth gyhoeddus ddofn ac eang o argymhellion.
- Cyflwyno adroddiad i'r Prif Weinidog yn nodi'r dystiolaeth a gasglwyd ac amlinellu set o argymhellion pendant, y gellir eu cyflawni a fydd yn sicrhau bod y cyfnod hwn yn ein hanes yn cael ei goffáu'n briodol.

Mater i Lywodraeth Ei Mawrhydi fydd ystyried a bwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu'r argymhellion hyn.

# Atodiad B – Aelodaeth y Comisiwn

## Cadeirydd y Comisiwn - Y Gwir Anrhydeddus Farwnes Morgan o Cotes

Y Farwnes Morgan oedd AS Ceidwadol Loughborough rhwng 2010 a 2019. Bu ganddi sawl swydd weinidogol gan gynnwys swydd Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg. Daeth yn aelod o Dŷ'r Arglwyddi ym mis Ionawr 2020. Roedd hi'n aelod o Bwyllgor Dethol COVID-19 Tŷ'r Arglwyddi. Yn ystod pandemig COVID-19, gwirfoddolodd y Farwnes Morgan yn Ymatebwr y GIG ac yn stiward Canolfan Frechu.

## Syr Nicholas Coleridge CBE DL

Roedd Syr Nicholas yn gyd-gadeirydd Pasiant Jiwbili Platinwm Y Frenhines. Mae'n Gadeirydd Amgueddfa Victoria ac Albert ac yn Gadeirydd Ymgyrch Gwlân Tywysog Cymru. Mae Syr Nicholas hefyd yn Llysgennad i Ymddiriedolaeth Landmark. Cafodd ei urddo'n farchog am ei wasanaeth i Amgueddfeydd, i Gyhoeddi ac i'r Diwydiannau Creadigol yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd 2022 y Frenhines.

## Dr Nadine Cossette

Mae Dr Nadine Cossette yn seiciatrydd cyswllt yn Ysbyty Brenhinol Caeredin. Yn 2020, arloesodd adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth yr Alban i wella a darparu triniaeth iechyd meddwl tosturiol ar gyfer cleifion COVID-19 yn yr ysbyty yn ystod y pandemig.

## Y Gwir Anrhydeddus Caroline Flint

Caroline Flint oedd AS Llafur Don Valley rhwng 1997 a 2019. Gwasanaethodd mewn nifer o swyddi Gweinidogol gan gynnwys Gweinidog Iechyd y Cyhoedd rhwng 2005 a 2007. Yn ystod pandemig COVID-19 , gwirfoddolodd mewn canolfan frechu ac mae wedi siarad yn helaeth ar yr adferiad wedi'r pandemig. Cafodd Caroline ei phenodi'n gadeirydd Ymddiredolaeth Sefydliad Addysgu GIG Humber yn 2021.

## Denise Hayward

Mae Denise Hayward wedi bod yn Brif Weithredwr gyda Volunteer Now, y prif sefydliad ar gyfer hyrwyddo a chefnogi gwirfoddoli ar draws Gogledd Iwerddon, ers mis Awst 2017. Chwaraeodd Volunteer Now ran allweddol wrth ysgogi a chydlynu ymateb y gymuned i bandemig Covid. Denise hefyd yw arweinydd Gogledd Iwerddon ar y grŵp Ysgogi Gweithredu Gwirfoddol sy'n archwilio ymatebion gweithredu gwirfoddol i'r pandemig ledled y DU.

## Felicia Kwaku OBE

Felicia Kwaku yw cadeirydd Grŵp Cynghori Strategol Du a Lleiafrifoedd Ethnig y Prif Swyddog Nyrsio a'r Phrif Swyddog Bydwreigiaeth (ar gyfer Lloegr) sy'n darparu arbenigedd a mewnwelediad amhrisiadwy i anghyfartaledd ethnig ar draws y proffesiwn Nyrsio a Bydwreigiaeth a darpariaeth gofal iechyd. Mae'n Gyfarwyddwr Cysylltiol Nyrsio ac yn Uwch Bennaeth Nyrsio ar gyfer Meddygaeth Arbenigol Acíwt yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbyty Coleg y Brenin. Derbyniodd OBE yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines 2020 am ei gwasanaethau i nyrsio yn ystod pandemig COVID-19.

## Y Cadfrifog Syr Gordon Messenger KCB, DSO & Bar, OBE, DL

Mae'r Cadfridog Syr Gordon Messenger yn uwch swyddog y Môr-filwyr Brenhinol sydd wedi ymddeol a wasanaethodd yn Is-Bennaeth Staff Amddiffyn rhwng 2016 a 2019. Rhwng Hydref 2020 a Chwefror 2021, cefnogodd sefydlu'r Rhaglen Brofi Gymunedol yn rhan o'r ymateb Covid cenedlaethol Arweiniodd adolygiad i arweinyddiaeth ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr, a adroddodd ym mis Mehefin 2022. Mae hefyd yn aelod anweithredol o Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ac yn Ddirprwy Raglaw Gwlad yr Haf. Ym mis Awst 2022 daeth yn Gwnstabl newydd Tŵr Llundain.

## Gillian Norton OBE DL

Gillian Norton yw cadeirydd Ymddiriedolaeth Sefydliad Ysbyty Athrofaol St George ac Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Epsom a St Helier. Cyn hyn, bu'n gweithio'n helaeth yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys yn Brif Weithredwr Cynghorau Bwrdeistref Richmond a Wokingham a hi yw Dirprwy Raglaw cynrychiadol Richmond upon Thames.

## Ndidi Okezie OBE

Ndidi Okezie yw Prif Swyddog Gweithredol UK Youth; elusen genedlaethol flaenllaw sydd â rhwydwaith agored o dros 8000 o sefydliadau ieuenctid ar draws y DU, ac sy'n cyrraedd dros 4 miliwn o bobl ifanc gyda'i gilydd. Cyn ymuno â UK Youth, mae gyrfa Ndidi yn rhychwantu'r sectorau addysg, elusennol a chorfforaethol. Mae ei chyn-rolau yn cynnwys athro, arweinydd ysgol, Cyfarwyddwr Gweithredol Teach First ac Is-lywydd Pearson PLC. Ar hyn o bryd mae Ndidi yn eistedd ar Fwrdd NCS, Teach For All a Chyngor Cynghori Amrywiaeth Sky. Cafodd OBE yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd 2020 y Frenhines am ei gwasanaethau i bobl ifanc yn ystod COVID-19.

## Yr Athro Keshav Singhal CBE, FLSW

Mae'r Athro Keshav Singhal yn llawfeddyg orthopedig ymgynghorol yn ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn Gadeirydd Grŵp Asesu Risg COVID-19 Cymru Gyfan y Prif Weinidog - y grŵp a arloesodd yr offeryn asesu risg COVID-19 ar gyfer GIG, sectorau cyhoeddus a busnesau yng Nghymru ac fe'i defnyddiwyd dros 100,000 o weithiau gan helpu i gynnal gwasanaethau cyhoeddus yn anterth y pandemig. Ef hefyd yw cadeirydd Cymdeithas Meddygon o Dras Indiaidd Prydain yng Nghymru, a bu'n allweddol i hwyluso llwybr meddygon dan hyfforddiant o India i ymuno â'r GIG. Fe'i gwnaed yn Gadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (CBE) am ei wasanaethau i feddygaeth ac i'r gymuned yng Nghymru yn rhestr Anrhydeddau Blwyddyn Newydd 2023.

## Yr Athro Syr Mark Walport FRCP FRS FMedSci HonFRSE

Ar hyn o bryd mae Syr Mark Walport yn gadeirydd Partneriaid Iechyd Coleg Imperial. Mae'n aelod anweithredol o Fwrdd GIG Lloegr. Mae ganddo brofiad helaeth yn y gwyddorau bywyd, y Llywodraeth a sefydliadau ymchwil ac arloesedd cenedlaethol, gan gynnwys yn Brif Weithredwr sefydlu Ymchwil ac Arloesedd y DU ac yn Gyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Wellcome. Gwasanaethodd Syr Mark yn Brif Gynghorydd Gwyddonol y Llywodraeth rhwng 2013 a 2017.

# Atodiad C – Canfyddiadau Ymgynghori â'r Cyhoedd

## Trosolwg o'r Ymatebwyr

### Cyfanswm yr ymatebion

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 24 Hydref 2022 a 5 Rhagfyr 2022. Roedd ar ffurf arolwg a oedd yn cynnwys pedwar cwestiwn demograffig, wyth cwestiwn caeëdig ac un blwch testun rhydd â nifer cyfyngedig o nodau.


Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar SmartSurvey. Roedd yr ymgynghoriad hefyd ar gael ar wahanol fformatau hawdd eu darllen gan gynnwys Easy Read, Print Large a PDF. Roedd hefyd ar gael yn Gymraeg. Cafodd yr ymgynghoriad 4,909 o ymatebion. Cyflwynwyd y mwyafrif helaeth o'r ymatebion (96.6%) trwy SmartSurvey.

### Lleoliad yr ymatebwyr

Gofynnwyd i'r ymatebwyr adrodd am y wlad lle roedden nhw'n byw ac, yn achos y rhai sy'n byw yn y DU, y rhanbarth roedden nhw'n byw ynddi. Fesul gwlad, roedd yr ymatebwyr yn byw yn y canlynol:

- 74.8% yn Lloegr
- 6.6% yn yr Alban
- 5.7% yng Nghymru
- 4.6% yng Ngogledd Iwerddon
- Ni ddarparodd 7.2% o'r ymatebwyr y data hyn

**Siart 1 - Lleoliad yr ymatebwyr**





Mae ymatebion pobl sy'n byw yn Lloegr wedi eu tangynrychioli o'u cymharu â chenhedloedd eraill y DU Mae'r ymatebwyr sy'n byw yn ne-ddwyrain Lloegr wedi eu gor-gynrychioli o'u cymharu â rhanbarthau eraill.

**Oedran yr ymatebwyr**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr adrodd am eu hoedran. Roedd bron dwy ran o dair o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn 45 oed neu'n hŷn.

**Siart 2 - Ymatebwyr fesul oedran**





Mae ymatebwyr sy'n llai na 35 oed wedi eu tangynrychioli mewn ymatebion i'r ymgynghoriad, o'u cymharu â phoblogaeth y DU.

### Rhyw yr ymatebwyr

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedden nhw'n eu nodi eu hunain yn wrywaidd, yn fenywaidd neu'n rhyw gwahanol. Dywedodd ychydig llai na dwy ran o dair o'r ymatebwyr eu bod yn nodi eu bod yn fenywod, a llai na thraean o'r ymatebwyr a nodwyd yn wrywaidd. Roedd yn well gan 5.9% o'r ymatebwyr beidio â dweud.

**Siart 3 - Ymatebwyr fesul rhyw**





Mae'r ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn fenywod wedi eu gorgynrychioli'n sylweddol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

### Ethnigrwydd yr ymatebwyr

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu hethnigrwydd. Roedd ychydig dros bedair rhan o bump o'r ymatebwyr yn wyn. Roedd yn well gan 11.1% o'r ymatebwyr beidio â dweud.

**Siart 4 - Ethnigrwydd yr ymatebwyr**




Mae'r ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn Asiaidd neu'n Asiaidd Prydeinig, neu Ddu, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig wedil eu tangynrychioli yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, o'u cymharu â phoblogaeth y DU.

## Methodoleg

Defnyddiwyd pwysoliad arolwg i bwysoli'r ymatebion i'r ymgynghoriad i ddarparu amcangyfrifon sy'n cynrychioli poblogaeth y DU. Maent wedi'u pwysoli i fynd i'r afael â gorgynrychiolaeth gwahanol ranbarthau, grwpiau oedran, rhywiau ac ethnigrwydd yn yr ymatebion a gafwyd.

Mae'r holl rifau' wedi eu talgrynnu i 1 lle degol. Oherwydd hyn, efallai na fydd canrannau a ddarperir yn y siartiau yn creu cyfanswm o 100% oherwydd y talgrynnu.

Mae'r ystadegau o dan bob graff yn dangos maint poblogaeth y DU a gynrychiolir gan nifer yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn. Mae'r ystadegau hefyd yn dangos maint poblogaeth y DU a gynrychiolir gan nifer yr ymatebwyr nad oedd ganddynt unrhyw farn gref (D.S. ar gyfer cwestiynau safle, nid oedd hyn yn opsiwn), nac wedi sgwennu'r cwestiwn.

Nid yw'r ymatebwyr a oedd o dan 16 oed wedi'u cynnwys yn y graff pwysau gan nad oedd digon o ymatebion a gafwyd o'r ddemograffeg hon. Ni chafodd ymatebwyr sy'n byw y tu allan i'r DU eu cynnwys yn y graffiau pwysedig am yr un rheswm chwaith.

Yn rhan o'r dadansoddiad ymgynghori, rydym yn arddangos dau graff y cwestiwn: canlyniadau wedi eu pwysoli a chanlyniadau heb eu pwysoli. Mae'r crynodeb ar gyfer pob cwestiwn yn seiliedig ar y canlyniadau pwysau gan fod y rhain yn rhoi golwg fwy cynrychioliadol ar adborth poblogaeth y DU.

Dylid nodi, ar gyfer y tri chwestiwn safle (cwestiynau 1, 3 a 4), ein bod wedi darparu dau ddadansoddiad gwahanol. Yn y cwestiynau hyn, roedd yn ofynnol i'r ymatebwyr rifo'r opsiynau naill ai 1 i 6 (cwestiwn 1) neu 1 i 3 (cwestiynau 3 a 4), gydag 1 yn cynrychioli eu dewis gorau a 6 (cwestiwn 1) neu 3 (cwestiynau 3 a 4) yn cynrychioli eu dewis lleiaf dymunol. Mae'r dull cyntaf yn dangos cyfanswm sgôr safle ar gyfer pob opsiwn. Cyfrifir y sgôr hon drwy grynhoi cyfanswm y pwyntiau a briodolir i bob opsiwn, byddai dewis cyntaf rhywun (safle 1) yn hafal i 6 (cwestiwn 1) neu 3 (cwestiynau 3 a 4) pwynt a safle o 6 (cwestiwn 1) neu 3 (cwestiynau 3 a 4) yw 1 pwynt. Mae'r ail ddull yn edrych ar yr ymatebwyr sydd ar y brig, opsiwn sy'n cael ei ffafrio, yn unig.


Nodwch fod modd i'r ymatebwyr ar gyfer cwestiwn 6 ddewis sawl opsiwn fel y bo'n briodol yn eu golwg nhw.

## Dadansoddiad Ymgynghori

**1. Mae'r Comisiwn yn ystyried diwrnod coffa cenedlaethol. Ar ba ddyddiad(au), a fyddai'n fwyaf priodol i'w goffáu? (safle os gwelwch yn dda)**


Mae'r siart yn dangos y ganran yn ôl cyfanswm y sgôr safle:

**Chanlyniadau heb eu pwysoli**




- Nifer a atebodd: **4,425**
- Nifer heb farn gref: **-**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **484**

**Canlyniadau wedi eu pwysoli**





- Nifer a gynrychiolir: **49.6 mil**
- Nifer heb farn gref: **-**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **5.1 mil**

Mae'r graff pwysedig ar gyfer cyfanswm y sgôr safleol yn dangos nad oedd dewis clir ar gyfer unrhyw ddiwrnod penodol, er ei bod yn amlwg mai'r opsiynau 7 Ebrill a 5 Gorffennaf oedd yr opsiynau lleiaf poblogaidd.


Mae'r siart yn dangos y ganran yn ôl yr opsiwn yn y safle cyntaf:

**Chanlyniadau heb eu pwysoli**




- Nifer a atebodd: **4,425**
- Nifer heb farn gref: **-**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **484**

**Canlyniadau wedi eu pwysoli**





- Nifer a gynrychiolir: **49.6 mil**
- Nifer heb farn gref: **-**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **5.1 mil**

Mae'r graff wedi'i bwysoli yn dangos nad oedd dewis clir ar gyfer unrhyw ddiwrnod penodol, ond bod 5 Mawrth a 23 Mawrth wedi eu rhestru'n gyntaf yn amlach na'r dyddiau eraill. 7 Ebrill a 5 Gorffennaf oedd y rhai leiaf poblogaidd. Mae'r graff wedi'i bwysoli hefyd yn dangos bod y ddau opsiwn mwyaf poblogaidd yn disgyn ym mis Mawrth.


2. **Ydych chi'n meddwl y dylai fod symbol i goffáu COVID-19 yn yr un ffordd ag y mae pabi yn cynrychioli Sul y Cofio?**

**Chanlyniadau heb eu pwysoli**




- Nifer a atebodd: **4,001**
- Nifer heb farn gref: **790**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **118**

**Canlyniadau wedi eu pwysoli**





- Nifer a gynrychiolir: **44.5 mil**
- Nifer heb farn gref: **8.9 mil**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **1.3 mil**

Mae'r graff wedi'i bwysoli yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl o blaid cael symbol i goffáu COVID-19.

### 3. Pa fath o gofebion neu fan coffa sydd orau gennych? (rhowch sgôr safle)


Mae'r siart yn dangos y ganran yn ôl cyfanswm y sgôr safle:

**Chanlyniadau heb eu pwysoli**




- Nifer a atebodd: **4,156**
- Nifer heb farn gref: **-**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **753**

### Canlyniadau wedi eu pwysoli





- Nifer a gynrychiolir: **46.8 mil**
- Nifer heb farn gref: **-**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **8.0 mil**

Mae'r graff wedi'i bwysoli yn dangos bod dros hanner y bobl yn ffafrio cofebion gwyrdd. Cofebion ar-lein oedd yr opsiwn lleiaf dewisol.


Mae'r siart yn dangos y ganran yn ôl yr opsiwn yn y safle cyntaf:

**Chanlyniadau heb eu pwysoli**




- Nifer a atebodd: **4,156**
- Nifer heb farn gref: **-**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **753**

**Canlyniadau wedi eu pwysoli**





- Nifer a gynrychiolir: **46.8 mil**
- Nifer heb farn gref: **-**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **8.0 mil**

Mae'r graff wedi'i bwysoli yn dangos bod dros hanner y bobl yn ffafrio cofebion gwyrdd. Cofebion ar-lein oedd yr opsiwn lleiaf dewisol.

### 4. Faint o gofebion neu fannau coffa ydych chi'n meddwl y dylen ni eu cael ar draws y DU? (rhowch sgôr safle


Mae'r siart yn dangos y ganran yn ôl cyfanswm y sgôr safle:

**Chanlyniadau heb eu pwysoli**




- Nifer a atebodd: **4,134**
- Nifer heb farn gref: **-**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **775**

**Canlyniadau wedi eu pwysoli**





- Nifer a gynrychiolir: **46.0 mil**
- Nifer heb farn gref: **-**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **8.7 mil**

Mae'r graff wedi'i bwysoli yn dangos y ffefrir cofebion rhanbarthol ledled y DU ychydig o'u cymharu ag un gofeb yn y DU neu gofebion lleol.


Mae'r siart yn dangos y ganran yn ôl yr opsiwn yn y safle cyntaf:

**Chanlyniadau heb eu pwysoli**




- Nifer a atebodd: **4,134**
- Nifer heb farn gref: **-**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **775**

**Canlyniadau wedi eu pwysoli**





- Nifer a gynrychiolir: **46.0 mil**
- Nifer heb farn gref: **-**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **8.7 mil**

Mae'r graff wedi'i bwysoli yn dangos y ffefrir cofebion rhanbarthol ledled y DU yn fwy nag un gofeb yn y DU neu gofebion lleol.


**5. Fyddech chi o blaid creu gwefan i ddod o hyd i gofebion a gweithgareddau coffáu yn agos atoch chi?**

**Chanlyniadau heb eu pwysoli**




- Nifer a atebodd: **3,689**
- Nifer heb farn gref: **1,029**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **191**

**Canlyniadau wedi eu pwysoli**





- Nifer a gynrychiolir: **41.4 mil**
- Nifer heb farn gref: **11.8 mil**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **1.5 mil**

Mae'r graff wedi'i bwysoli yn dangos bod y mwyafrif o blaid creu gwefan i ddod o hyd i gofebion a gweithgareddau coffáu yn agos atynt.


**6. Beth ydych chi'n ei ystyried yw'r ffordd/fyrdd gorau o addysgu cenedlaethau'r dyfodol am COVID-19? (ticiwch gymaint ag y dymunwch)**

**Chanlyniadau heb eu pwysoli**




- Nifer a atebodd: **4,065**
- Nifer heb farn gref: **736**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **108**

**Canlyniadau wedi eu pwysoli**





- Nifer a gynrychiolir: **45.9 mil**
- Nifer heb farn gref: **8.4 mil**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **0.4 mil**

Mae'r graff wedi'i bwysoli yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl yn meddwl mai'r ffordd orau o addysgu cenedlaethau'r dyfodol am COVID-19 oedd drwy ei gynnwys yn rhan o gwricwlwm yr ysgol. Roedd tua hanner y bobl yn cefnogi'r syniad o addysgu cenedlaethau'r dyfodol drwy adnoddau ar-lein, yn ogystal ag amgueddfeydd / canolfannau dysgu.


### 7. Fyddech chi o blaid cael Darn Arian Coffa Covid?

**Chanlyniadau heb eu pwysoli**




- Nifer a atebodd: **3,813**
- Nifer heb farn gref: **998**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **98**

**Canlyniadau wedi eu pwysoli**





- Nifer a gynrychiolir: **43.1 mil**
- Nifer heb farn gref: **10.4 mil**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **1.2 mil**

Mae'r graff wedi'i bwysoli yn dangos nad oedd tua dwy ran o dair o bobl o blaid cael darn arian Covid coffa.


8. **Cyfrannodd miliynau o weithwyr a gwirfoddolwyr at yr ymateb i'r pandemig ar draws y DU mewn ffyrdd gwahanol. Mae'r Comisiwn yn ystyried sut i gydnabod ymdrechion pobl drwy gydol y pandemig. Pwy o'r canlynol ydych chi'n meddwl y dylid eu cydnabod?**

**Chanlyniadau heb eu pwysoli**




- Nifer a atebodd: **4,364**
- Nifer heb farn gref: **310**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **235**

**Canlyniadau wedi eu pwysoli**




- Nifer a gynrychiolir: **49.6 mil**
- Nifer heb farn gref: **3.1 mil**
- Nifer a hepgorodd cwestiwn: **2.0 mil**

Mae'r graff wedi'i bwysoli yn dangos bod tua hanner y bobl yn credu y dylai pawb gael eu cydnabod am eu hymdrechion drwy gydol y pandemig. Roedd nifer sylweddol o bobl hefyd yn credu y dylid cydnabod rhai grwpiau. Roedd bron un o bob pump o'r bobl yn teimlo na ddylai fod cydnabyddiaeth o gwbl.

### 9. Oes gennych chi awgrymiadau eraill ar sut y dylem goffáu a chofio pandemig COVID-19? (Atebwch mewn 500 o nodau neu lai)

Trwy'r cwestiwn hwn, cawsom amrediad eang o safbwyntiau a oedd yn ymwneud â phob agwedd ar goffáu. Mae'r data wedi eu hadolygu'n helaeth a'r themâu cyson oedd:

- Awgrymodd rhai ymatebwyr mai'r Galon Felen a ddylai fod yn symbol ar gyfer Covid; awgrymwyd hefyd y Galon Goch (a symbolau eraill) er yn llai aml.
- Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai'r Wal Goffa Covid Genedlaethol yn Llundain gael ei gwneud yn barhaol.
- Dywedodd rhai a wnaeth ymateb y dylid cael medal Covid.
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn hanfodol y dylid gwahanu coffáu'r rhai a fu farw o COVID-19 yn llwyr oddi wrth unrhyw fath o gydnabyddiaeth o weithwyr allweddol.
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn na ddylai fod unrhyw goffáu Covid am wahanol resymau. Roedd y rhain yn cynnwys y farn nad oedd modd cyfiawnhau cyfyngiadau Covid ac felly na ddylid dyrannu arian i weithgareddau coffáu. Ymhlith yr awgrymiadau eraill oedd y dylai'r Llywodraeth gynyddu cyllid y GIG a Gofal Cymdeithasol, yn hytrach na gwario arian ar goffáu. Roedd eraill yn teimlo na ddylem ni fod yn coffáu Covid gan nad yw wedi dod i ben ac felly ni ddylid ei goffáu eto.

## Atodiad D – Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Yn rhan o'i ymgynghoriad, bu'r Comisiwn hefyd yn cynnal a mynychu amrywiaeth o gyfarfodydd â grwpiau a sectorau penodol. Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar i'r grwpiau a'r sefydliadau a rannodd eu barn yn ystod y cyfarfodydd hyn, yn enwedig y teuluoedd mewn profedigaeth a fynychodd y cyfarfodydd ymgysylltu. Rydym yn ddiolchgar hefyd i gynrychiolwyr teuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth a gyfarfu â'r Farwnes Morgan ar sawl achlysur y tu allan i'r cyfarfodydd y rhoddir eu manylion isod. Rhestrir manylion y cyfarfodydd hyn isod[4].

| | |
|---|---|
| Cyfarfod Caerdydd | Dydd Gwener 30 Medi 2022 |
| Cyfarfod Belfast | Dydd Iau 6 Hydref 2022 |
| Cyfarfod Manceinion | Dydd Mercher 12 Hydref 2022 |
| Cyfarfod Caeredin | Dydd Iau 13 Hydref 2022 |
| Cyfarfod Caergrawnt | Dydd Gwener 14 Hydref 2022 |
| Cyfarfod Caerlŷr* | Dydd Llun 17 Hydref 2022 |
| Cyfarfod Caerwysg | Dydd Mercher 19 Hydref 2022 |
| Cyfarfod rhanddeiliaid gwirfoddoli* | Dydd Mercher 19 Hydref 2022 |
| Cyfarfod y DU gyfan* | Dydd Llun 24 Hydref 2022 |
| Cyfarfod Llundain | Dydd Mercher 26 Hydref 2022 |
| Cyfarfod Newcastle | Dydd Gwener 28 Hydref 2022 |
| Cyfarfod rhanddeiliaid elusennau anabledd* | Dydd Llun 31 Hydref 2022 |

4 Cynhaliwyd cyfarfodydd sydd wedi'u nodi â seren yn rhithiol

| | |
|---|---|
| Cyfarfod rhanddeiliaid cludiant teithwyr* | Dydd Llun 21 Tachwedd 2022 |
| Seneddwyr | Dydd Llun 21 Tachwedd 2022 |
| Cyfarfod Swydd Efrog a Humber* | Dydd Llun 28 Tachwedd 2022 |
| Cyfarfod rhanddeiliaid gofal cymdeithasol* | Dydd Mercher 30 Tachwedd 2022 |
| Cyfarfod rhanddeiliaid gwyddoniaeth | Dydd Gwener 2 Rhagfyr 2022 |
| Cyfarfod rhanddeiliaid ieuenctid* | Dydd Mawrth 6 Rhagfyr 2022 |
| Cyfarfod rhanddeiliaid manwerthu bwyd* | Dydd Mercher 7 Rhagfyr 2022 |
| Cyfarfod rhanddeiliaid manwerthu* | Dydd Mercher 14 Rhagfyr 2022 |